# ECO'r Wyddfa

Rhif: 423
Gorffennaf/Awst 2014
Pris:60c


# Troedio'r Llwybr Cul?



Mae'r weiar rôp (a elwid weithiau yn 'blondin' ar ôl y cymeriad enwog a arferai gerdded rhaffau tynn uwchben dyfnderoedd fel Rhaeadr Niagra) a gariai rwbel uwchben tyllau Chwarel Dinorwig wedi hen ddiflannu. Yn ystod y mis diwethaf daeth crefft go wahanol i gymryd ei lle: nid rhaff dynn, ond rhaff llac, ac uwchben Chwarel Vivian yn ystod y mis cerddwyd ar hyd y rhaff llac ail hwyaf ym Mhrydain.

Mae rheolau iechyd a diogelwch bellach yn golygu fod y criw a osododd y rhaff yn ei lle a'r arwr a gerddodd ar ei thraws yn aros yn ddi-enw. Gyda diolch i Dylan Parry am fod mor effro i dynnu'r llun hynod sy'n dangos camp y Blondin cyfoes.

ECO'r Wyddfa

**DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012**

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Medi | Awst 17 | Awst 29 | Llanrug |

**RHIF 423**
**Gorffennaf/Awst 2014**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:** ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan grid 76 dylunio graffeg 07766956673

## LLYTHYRAU

**Yn ystod y mis diwethaf…..**

- Gwelwyd bysus coch Padarn ar ffyrdd y fro am y tro olaf. Beth bynnag fo'r amgylchiadau ynglyn a dirwyn y cwmni i ben, y tristwch yw fod dros bedwar ugain o weithwyr wedi eu rhoi ar y clwt, y mwyafrif ohonynt yn gynhalwyr teuluoedd. Da deall fod nifer ohonynt wedi eu cyflogi gan gwmniau bysus eraill. Does ond gobeithio y bydd y gweddill hefyd yn derbyn swyddi cyffelyb yn fuan.
- Daeth y llwyddiant a gafodd ei ddarogan ddeufis yn ol i ieuenctid Ysgol Brynrefail yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala. Ein llongyfarchiadau ar ran holl drigolion y fro i'r disgyblion a'u hyfforddwyr. Ein llongyfarchiadau hefyd i'r rhai fu'n llwyddiannus yn eu hadrannau pentref ac adrannau ysgolion cynradd y fro. Mwy o dalent i fwydo Ysgol Brynrefail i'r dyfodol!
- Mae arolwg annibynnol wedi dangos fod Triathlon Llanc y Llechi wedi cynhyrchu tua £1.7 miliwn o bunnau o fewn y fro. Yr un cwmni – Camu i'r Copa – fu'n gyfrifol am lwyddiant ysgubol Etape Eryri hefyd, ble gwelwyd cannoedd o feicwyr yn gadael Maes Caernarfon ac yn teithio o amgylch dyffrynoedd Eryri, gan gynnwys y fro hon. Ac ar ddiwrnod heulog pa well dull o fwynhau gogoniant y golygfeydd?
- Byr-hoedlog fu dathlu'r Gymdeithas Bysgota. Daeth y newyddion brawychus am fwy o lygredd yn Afon y Bala yn ystod y mis a aeth heibio. Da deall fod ffynhonell y llygredd – olew gwresogi – wedi ei leoli yn gyflym a'i reoleiddio rhag i ychwaneg gael ei arllwys allan i'r llyn.

# NOSON LANSIO GWEFAN YR 'ECO'

*Neuadd Goffa Bethel.*

*Nos Fercher, 17eg o fis Medi am 7.00.*

Croeso cynnes i holl ddarllenwyr a chefnogwyr yr 'Eco', pryd y bydd gwefan newydd "Eco'r Wyddfa" yn cael ei lansio'n swyddogol.

Bydd y wefan yn 'fyw' o'r dyddiad hwn, yn cynnwys yr holl ôl-rifynnau, yr oll o'r lluniau a gyhoeddwyd yn yr 'Eco', a hefyd archif o hen luniau eraill o'r fro, gan gynnwys ffilmiau fideo o'r gorffennol.

### Gair gan y golygydd.

Does dim rhifyn Awst o'r 'Eco'. Mae holl weithwyr gwirfoddol y papur yn cael gwyliau haeddiannol am ychydig wythnosau. OND – bydd llawer o weithgareddau a digwyddiadau ymlaen yn y fro dros fisoedd Gorffennaf ac Awst, felly peidiwch a'u hanwybyddu. Gwnewch yn siwr fod y camera ar gael, a thynnwch ddigon o luniau. Y bwriad yw cael tudalen yn rhifyn Medi yn dangos yr hyn fu'n digwydd dros dymor y gwyliau yn ein bro.

Cofiwch hefyd am ddyddiad anfon gwybodaeth ar gyfer rhifyn Medi – AWST 17. Er gwaethaf cyhoeddi'r dyddiadau ar dudalen 2 bob mis, mae rhai yn dal i anfon gwybodaeth i'r golygydd yn hwyr iawn!

Mwynhewch y gwyliau.

**Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?**

**Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis**

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.
Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £18.00
Cost anfon dros y we am flwyddyn - £6.00
Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£30.00 Er cof am Gracie Thomas, Gwenallt, Pontrhythallt, Llanrug, gan y teulu.

£10.00 Di-enw.

£10.00 Di-enw.

£20: Nan Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis; Cyril a Dilys, Stryd Newton, Llanberis.

£10: Kathryn Jones, Y Ddolwen, Bethel; Nia Griffiths, Glandŵr, Bethel; Chris ac Eirian Roberts, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Eira Wyn Hughes, Rhes Marian, Deiniolen; Marian Thomas, Trawsfynydd; Elizabeth, Bangor, er cof am Antis Nell a May (Charlotte Street, Llanberis, gynt).

£5: Ann Parry, Preswylfa, Llanberis

### Ar Gael

Oes gan rhywun ddiddordeb mewn hen gyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru?
Mae gennyf gopiau o'r canlynol: 1972, 1974, 1976 i 1980, 1982 i 1986, 1990 a 1991, 1995, 1998, 2000, 2002, 2003, 2006, 2008 i 2011.
Maent am ddim i'r cyntaf i gysylltu efo Nia ar 01248 670641.

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

# Cyngor Gwynedd yn cefnogi myfyrwyr lleol



Mae myfyrwyr o Brifysgol Bangor wedi bod ar gyfnodau o brofiad gwaith mewn dwy adran yng Nghyngor Gwynedd yn ystod y misoedd diwethaf.

Cynigiwyd y cyfleon profiad gwaith hyn yn dilyn cydweithio rhwng Gwasanaeth Cyfreithiol a Chabinet y Cyngor a dwy adran yn y Brifysgol sef Adran y Gyfraith a'r Adran Gweinyddiaeth Gymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol.

Cychwynnwyd y cynllun gyda chydweithrediad rhwng Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor ac Adran y Gyfraith, Prifysgol Bangor yn 2013 gan ehangu i Wasanaeth Cabinet y Cyngor eleni. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle drwy Brifysgol Bangor i fyfyrwyr gael cyfnod o brofiad gwaith gyda'r Gwasanaeth ar sail diwrnod neu hanner diwrnod yr wythnos am gyfnod oddeutu dau fis.

Cynigiwyd lleoliadau un diwrnod yr wythnos yn ddiweddar i ddau fyfyriwr o Lanrug gyda Thîm Cefnogi'r Cabinet o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol a Chabinet, a gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol.

Bu Rhys Parry, sydd yn astudio ar gyfer gradd mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, ar brofiad gwaith o dan arweiniad Rhian Tomos, Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet.

Dywedodd Rhys Parry:

'Mae cael profiadau fel hyn yn amhrisiadwy yn y byd hynod gystadleuol sydd ohoni. Nid cymwysterau academaidd yn unig fydd yn sicrhau swydd i mi yn y dyfodol, mae cyflogwyr yn chwilio am brofiadau gwaith perthnasol a sgiliau amryddawn. Rwy'n hyderus bydd yr hyn ddysgais yn ystod fy nghyfnod yn y Cyngor yn fy nghynorthwyo wrth geisio am swyddi ar ôl i mi raddio o'r Brifysgol.'

Bu Sioned Fôn Jones sydd yn astudio'r Gyfraith yng Ngwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor o dan arweiniad Erin Wyn, Cyfreithwraig yn y Gwasanaeth Cyfreithiol.

Meddai Sioned Fôn Jones:

'Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gwasanaeth Cyfriethiol am fy ngalluogi i weld sut mae modd rhoi'r hyn rwy'n dysgu ar fy nghwrs gradd ar waith. Mae'r profiad hefyd wedi profi i mi nad oes rhaid i mi adael yr ardal i chwilio am swydd yn y dyfodol a bod modd i mi adeiladu gyrfa lwyddiannus yn fy nghynefin.'

Ychwanegodd Iwan G.D. Evans, Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol a Chabinet Cyngor Gwynedd:

'Mae'r Cyngor a'r Brifysgol yn gweld pwysigrwydd rhoi profiadau gwerthfawr a chyfrannu at ddatblygiad myfyrwyr prifysgol. Mae'r cynllun hefyd yn cynnig cyfle i'r myfyrwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o waith o fewn llywodraeth leol ac efallai eu hannog i ddilyn gyrfa yn y sector yn y dyfodol.

'Hoffem ddiolch i Malcolm John, Darlithydd mewn Polisi Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol a Gwilym Owen, Darlithydd yn y Gyfraith am eu parodrwydd i gydweithio er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yn cael y budd gorau o'r profiad hwn.'

SWYDDFA POST
BETHEL
LLUN-SADWRN 5.30am-7.30pm
DYDD SUL 5.30am-3pm
Ffôn (01248) 670261
COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR
YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.
Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI,A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

SWIGOD A SEBON
Gwasanaeth Golchi a Smwddio
Altro • Ailwnïo
54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

J2O
Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

GAREJ CERIS JONES
Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol
Llanrug 01286 677362 07979620996

# Dau ddiwrnod, dau faton, dwy daith.




*O enwau byd-enwog (Syr David Brailsford) … …*



*…. i redwyr rhyngwladol (Matthew Roberts, Llanberis; Rob Samuel, Llanrug; Bronwen Jenkinson, Waunfawr ac Alun Vaughan, Llanberis gynt; a Craig Jones, Rhedwyr Eryri) … ..*



*… … i gychod kayak Llyn Padarn*



*… ac un o'r cefnogwyr ieuengaf.*



# Dau ddiwrnod, dau faton, dwy daith.

Taith Baton y Gymanwlad gafodd y sylw ar y cyfryngau. Cyrraedd copa'r Wyddfa ben bore a dychwelyd drwy Lanrug a Chwm y Glo i Lanberis yn ddiweddarach yn y pnawn cyn gorffen taith y diwrnod yng Nghaernarfon. Ar ei thaith i Glasgow yn yr Alban roedd y baton; y daith a gynhelir bob pedair blynedd yn cario neges y frenhines drwy bob un o wledydd y Gymanwlad i'r ddinas sy'n cynnal y Gemau. Y tro diwethaf iddi ymweld a'r fro oedd yn 1958 pan gynhaliwyd y Gemau yng Nghaerdydd, a'r cystadleuthau rhwyfo ar Lyn Padarn. Y tro hwn roedd mascot y Gemau yn dilyn y baton; cymeriad lliwgar o'r enw Clyde, a oedd yn llawer mwy o atyniad i'r plant na'r baton!

Ddiwrnod cyn y sbloets roedd baton neu ffagl arall yn ymweld a Llanberis a chopa'r Wyddfa, ond prin fu'r sylw ar y cyfryngau. Roedd cychwyn y daith hon yn Lisbon, gan deithio drwy wledydd de Ewrop, canolbarth Ewrop a throsodd i Brydain. Ar ei ffordd o'r Iwerddon i Lundain y galwodd heibio i Lanberis a theithio i gopa'r Wyddfa. Wedi croesi'n ol i Ewrop, roedd y ffagl yn dilyn llwybr drwy wledydd Sgandinafia, Rwsia, Wcrain (er gwaetha'r helyntion yno), Twrci, Groeg a diweddu'r daith yn Belgrade.

Mae'r ffagl hon yn cael ei chario ers 1987, a hyd yma, wedi ymweld a 140 o wledydd y byd. Mae'n cael ei throsglwyddo o un rhedwr i redwr arall ar daith sy'n hyrwyddo cyfeillgarwch a chyd-ddealltwriaeth rhyngwladol. Nid yw'n ceisio codi arian nac yn tynnu sylw at unrhyw achos gwleidyddol. Ei gobaith yw creu cyfeillgarwch rhwng pobl o bob cenedl.

Gwr o'r enw Sri Chinmoy fu'n gyfrifol am gychwyn y daith yn 1987; athletwr, arlunydd, bardd, a chredwr cryf mewn dylanwad chwaraeon i hyrwyddo heddwch rhyngwladol.

Erbyn hyn mae rhwydwaith rhyngwladol o wirfoddolwyr yn trefnu'r daith, ac yn cysylltu'n lleol a grwpiau cymunedol, ysgolion a chlybiau chwaraeon, yn ogystal a llywodraethau canolig a lleol. Mae'r rhedwyr yn rhoi o'u hamser hamdden i gario'r ffagl.

(Gyda diolch i Fudiad Sri Chinmoy am y lluniau o'r Baton Heddwch, ac i Gwynfor James, Paul Jenkinson, a Paul Sivyer am luniau o Faton y Gymanwlad).




*Tim rhedwyr y Baton Heddwch ar gopa'r Wyddfa.*

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

CHIROPODYDD
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
30 MLYNEDD o waith yn y GWASANAETH IECHYD
GALWADAU I'R CARTREF
Cysylltwch- Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

# CAEATHRO Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Llwyddiant Plant Caeathro** Bu Martha, Malan, Steffan a Siôn Dafydd ym mhencampwriaeth cenedlaethol bandiau pres Ieuenctid ym Manceinion yn ystod mis Ebrill fel aelodau o fand Ysgol Bontnewydd, a thipyn o gamp oedd dod i'r brig am yr eildro mewn cystadleuaeth mor bwysig. Yna, dros y dŵr i Ynys Môn a churo'r gystadleuaeth ensemble offerynnol yn Eisteddfod Môn. Yn ogystal â chwythu bu Malan a Martha yn fuddugol ar y Ddeuawd canu. Da iawn chi genod.

Cafwyd cryn lwyddiant mewn gwahanol gystadlaethau yn eisteddfodau cylch a sir yr Urdd. Bu amryw o blant oedran uwchradd a chynradd yn brysur, yna ymlaen i'r brifwyl yn y Bala. Bu Erin, Malan, Martha, Siôn a Steffan yn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau gydag Ysgol Bontnewydd, sef y parti Cerdd Dant, Ensemble offerynnol a'r Band. Bu Betsan yn cystadlu ar yr Ensemble Lleisiol a Chôr Merched Ysgol Syr Huw Owen a bu Luned yn clocsio gyda'r grŵp Cofi Clogs. Plant prysur te!

Roedd y cystadlu'n frwd ac yn hynod safonol yn y Bala ac mae ein llongyfarchiadau yn fawr i Malan ar ddod yn fuddugol gyda'r Ensemble ac i Malan, Martha, Siôn a Steffan ar ddod yn fuddugol gyda Band Ysgol Bontnewydd. Da iawn chi i gyd, rydym yn falch iawn ohonoch.

**Ysgoloriaeth Celf yr Urdd** Llongyfarchiadau mawr i Mirain Fflur o Nefyn ar ennill yr ysgoloriaeth hon ym mhrifwyl yr Urdd yn y Bala. Mae Mirain yn wyres i Ifor ac Alwen Hughes, Lleifior. Dymunwn y gorau i Mirain i ddyfodol ei gyrfa.

**Clwb Merched** Daeth blwyddyn brysur i ben gyda noson anffurfiol i drefnu rhaglen 2014 i 2015,yn y ganolfan. Ar Fehefin 19eg. Un o uchafbwyntiau y tymor oedd yr ymweliad â Chastellmai yn ôl ym mis Hydref. Dymuna'r pwyllgor, sef Beryl, Rhiannon a Bethan, ddiolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Y swyddogion newydd fydd Llio, Eirwen, Rhian a Catrin.

**Croeso yn ôl** Deallwn fod Gareth a Dona Griffiths wedi ymgartrefu yn Hafan, Bryn Gwna Uchaf. Croeso mawr.

**Tynfa misol** Dyma ganlyniadau y dynfa am fis Mai a mis Mehefin y tro hwn!

Enillwyr mis Mai: D. Parry, Cefn Rhos (101) £40; G. Bebb, Bryn Mair (3) £25; V. Jones, Llain Meddygon (92) £15; P. Jones, Rhythallt Bach (91) £5.

Enillwyr mis Mehefin: Bryn a Dilys Griffiths, Delfryn (31) £40; Mrs J. Evans, Llwyn Alice (30) £25; Norma Evans, Beudy Isaf (96) £15; Berwyn Roberts, Sea View (70) £5.

**Gwasanaethau y Capel**

Gorff 6 ed am 2 o'r gloch: Y Parch Marcus Robinson, gyda Chyfarfod Swyddogion yn dilyn am 3 o'r gloch.

Gorff 27ain am 2 o'r gloch: Y Parch Harri Parri

**Ras am Fywyd** Llongyfarchiadau i Hannah Hughes, gyda'i ffrindiau Catrin ac Elan Jones a Cara a Beca Jones am gwblhau y ras am fywyd i gefnogi Ymchwil Cancr. Da iawn chi genod.

**Etape Eryri** Diwrnod hynod o braf a llonydd gafwyd i'r ras feicio drwy Eryri, a channoedd o feicwyr wedi gweld ein rhan ni o Gymru ar ei gorau. Daeth canmoliaeth ar lafar ac ar y cyfryngau am y trefnu manwl eithriadol, ac i Tim Lloyd o Gaeathro mae'r diolch am hynny. Fo oedd wedi trefnu'r Etape ac wedi gweithio ers misoedd mae'n debyg i sicrhau ei llwyddiant. Llongyfarchiadau mawr iawn, Tim, a phob hwyl ar yr Etape nesaf.




**Llongyfarchiadau** i Norman Hughes o Gaeathro fu'n beicio, ac i fab eich gohebydd ddaeth yn arbennig o Gaerdydd i gymeryd rhan.


Norman Hughes ar ei feic gyda'i ferch, Hannah, a redodd y Ras am Fywyd.

# NANT PERIS

**Arddangosfa gan Glyt-weithwyr** Peris yn Festri Capel Rehoboth, Nant Peris, rhwng 11yb a 2yp, ddydd Mercher, Gorffennaf y 30ain. Mynediad £1, fydd yn cynnwys paned o de. Elw'r diwrnod i fynd at achosion da, lleol.

**Llongyfarchiadau** i Dei Tomos ar dderbyn gradd anrhydedd gan Brifysgol Bangor.


ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr


J. M. JONES
a'i FEIBION
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffôn Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

**Clwb Bro Bethel** Mwynhawyd y wibdaith pen tymor gan oddeutu 30 o aelodau yn ddiweddar gyda'r haul yn gwenu ar bawb. Yr arhosiad cyntaf oedd Biwmares lle roedd cyfle i grwydro ar hyd glan y môr a'r pier ac yna pori ymysg yr amrywiol siopau o gwmpas y dref. Ymlaen wedyn i Oriel Môn, Llangefni, a chael cyfle i weld yr arddangosfeydd cyn mynd ymlaen i wario yn Pringles! Roedd bwyd blasus wedi ei baratoi i bawb yn Nhafarn y Gors, Pentre Berw ac, yn absenoldeb anorfod y Llywydd, croesawyd pawb ynghyd gan Geraint Elis a diolchodd i Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am yr holl drefniadau. Bydd gweithgareddau'r Clwb yn ail gychwyn ar Fedi 9fed

Diolch Dymuna Kathryn Jones, Y Ddolwen, ar ran Uned Apêl Cancr a Haematoleg Alaw, ddiolch yn fawr i drigolion y pentre a chyfagos am eu haelioni a'r gefnogaeth yn y Bore Coffi yn y Neuadd Goffa yn ddiweddar. Casglwyd £556.00 at yr Apêl.

Merched y Wawr I gloi'r flwyddyn aeth yr aelodau ar ymweliad â Chanolfan Thomas Telford, Porthaethwy. Cawsom gyfle i edrych ar y arddangosfa hynod ddiddorol o gynlluniau gwaith gwreiddiol, lluniau ac artiffactau am y ddwy bont, Pont Menai a Phont Britannia yng nghwmni Mr Bob Diamond. A hithau'n noson fendigedig o haf aethom efo Mr Diamond ar daith gerdded dros Bont Menai ac yntau'n tynnu ein sylw at beirianneg hynod y bont. Yn dilyn hyn aethom i Westy Carreg Bran lle cawsom swper blasus iawn wedi ei weini yn hyfryd. Mae lluniau o'r noson gyda golygfeydd o'r Bont ac Afon Menai i'w gweld ar y wefan www.mywbethel.org

Croesawyd Cecile Roberts atom, dysgwraig a ddaeth i'r gangen mis Mai, gan obeithio ei gweld yn aelod y flwyddyn nesaf.

Diolchodd Jen i'r aelodau am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn gan gyfeirio at nosweithiau hwyliog a chofiadwy. Diolchodd yn arbennig i'r pwyllgor a'r swyddogion a wnaeth ei gwaith hi yn hawdd. Diolchodd Anne i Jen a Meic am eu haelioni yn creu gwefan i'r gangen ac am roi gweithgareddau'r gangen arni drwy'r flwyddyn. Roeddem yn falch o ddeall y bydd Jen yn parhau efo'r gwaith y flwyddyn nesaf. Enillwyd y raffl gan Anne, Bet, Rhian a Mair Read. Rhoddwyd y raffl gan Liz, Gwyneth Jones a Falmai.

Diolchodd Mair Price, y llywydd am y flwyddyn nesaf i Jen a'i thîm am flwyddyn hwylus iawn gan edrych ymlaen at flwyddyn arbennig y flwyddyn nesaf, sef dathliad 40 mlynedd ers sefydlu'r gangen. Mae'r pwyllgor newydd wedi dechrau llunio rhaglen ar ein cyfer gan obeithio am gefnogaeth yr aelodau eto a chroesawu aelodau newydd.

**YSGOL BETHEL YN 150 MLWYDD OED**

Mae Ysgol Bethel yn dathlu 150 o flynyddoedd eleni ac i ddathlu'r garreg filltir bwysig hon, rydym wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer diwedd y tymor.

**Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail 02.07.14 am 6.30yh**

Cyngerdd yn cynnwys holl ddisgyblion Ysgol Bethel (D-B6) a llu o gyn-ddisgyblion dawnus yr ysgol. Tocynnau ar werth yn yr ysgol yn fuan. £3.

**Ysgol Bethel Ddoe a Heddiw – Cyflwyniad ac Arddangosfa yn Y Neuadd Bentref 03.07.14 am 6.30yh**

Arddangosfa i'r gymuned yn adrodd hanes Ysgol Bethel o 1864 hyd heddiw a chyflwyniad hwyliog gan yr hanesydd Gareth Roberts. Efallai bod llun ohonoch chi yn yr arddangosfa, neu hanes un o'ch cyn-deidiau yn y llyfrau log – dewch draw am dro am noson anffurfiol ddifyr! £2, Plant ysgol Bethel £1. Bydd y bar ar agor, felly gofynnir i blant fod dan oruchwyliaeth os gwelwch yn dda.

**Llongyfarchiadau mawr** i Gwawr Huws Owen o Ysgol Bethel ar ddod yn gyntaf ar yr Unawd Blwyddyn 3 a 4 yn Eisteddfod Bontnewydd dydd Sadwrn, 14 Mehefin. Llongyfarchiadau gan y teulu i gyd ym Mro Rhos.

## Apêl

**Gofynnir yn garedig i aelodau o'r gymuned rannu eu hen luniau o Ysgol Bethel gyda ni ar gyfer ein harddangosfa. Byddwn yn eu llungopïo a'u dychwelyd yn syth. Gorau oll os y gallwch roi'r dyddiad ac unrhyw enwau ar y cefn, a'ch enw chi, os gwelwch yn dda. Gallwch alw heibio'r ysgol neu ffonio'r pennaeth ar 670663. Diolch yn fawr.**

Nia Guillemin (Pennaeth)


Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Ffôn-(01286)-870277

TM JONES
SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD
SYMUD A CHADW
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

BARRYS GLASS
FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

# Elen Wyn Jones

Mae rhai pobl nad ydynt i fod i farw. Byddwn yn disgwyl iddynt fyw am byth oherwydd iddynt fod yn gymaint rhan o'n bywyd ni'n bersonol neu'n gymaint rhan o fywyd a gweithgarwch ein bro. Un felly oedd Elen Wyn Jones neu Nellie Wyn, Anti Nellie neu wrth gwrs i genedlaethau o ddisgyblion - Miss Wyn. Ychydig dros 22mlynedd yn ôl, a minnau eisoes wedi derbyn galwad i'r ofalaeth, cofiaf alw yn Nhŷ'n y Fawnog i gasglu rhestr yr oedd hi wedi'i pharatoi o aelodau Sardis ar gyfer dechrau fy ngweinidogaeth. Ond hefyd yn fy nisgwyl yr oedd torch o flodau hyfryd yr oedd hi am i mi eu cyflwyno i Helen fy ngwraig. Gwywodd y blodau ym mhen amser ond blodeuodd rhywbeth arall, llawer mwy gwerthfawr o lawer i mi - cyfeillgarwch prydferth a rhyw ymdeimlad sicr fod hon yn wraig y gallwn yn hyderus ymddiried ynddi. Lle mae dechrau sôn am un fu'n gymaint rhan o fywyd y fro yma ag yw'r bryniau cadarn sydd o'n hamgylch, a hynny am y rhan helaethaf o ganrif. "Pwy all ddod o hyd i wraig fedrus? Y mae hi'n fwy gwerthfawr na gemau." Ie, mwy gwerthfawr na gemau a chadarnach nag unrhyw faen a frigodd i'r wyneb ar y bryniau hyn.

Dywedodd un o'i chyn-ddisgyblion rywbeth arwyddocaol iawn wrthyf amdani yn ystod y dyddiau diwethaf hyn. Roedd yn cofio'i ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol yn Neiniolen, ac yntau'n ofnus a dweud y lleiaf. Ond pwy ddaeth ato a gafael yn ei law a gwenu'n annwyl arno ond Miss Wyn, "A wyddoch chi beth," meddai, "o'r eiliad honno ymlaen roeddwn yn teimlo'n saff!" A dyna i chi Elen Wyn Jones mewn ychydig eiriau! Beth bynnag a ymddiriedid i'w gofal roeddech chi'n gwybod eu bod mewn dwylo diogel. - yn saff. Roedd hi'n golofn gadarn ym mhob dim a wnaeth. Rwy'n dwyn i gof un a fu'n golofn yn nheml:

1. Diwylliant y Fro
2. Dysg y Fro
3. Dawn y Fro

1.Diwylliant y Fro

Ffordd o fyw yw Diwylliant. Ac fe fu Elen Wyn Jones fyw i sicrhau fod Teml diwylliant y fro hon yn sefyll yn gadarn yn wyneb ymosodiadau ffyrnig diwylliannau estron arwynebol. Trefnodd a mynychodd weithgareddau diwylliannol cyson, nid er mwyn lladd amser, ond er mwyn cynnal a meithrin y gwerthoedd gorau a berthyn i ni fel cenedl. Daeth i'r Ysgol Sul ar ôl wythnos galed o waith, nid i warchod plant am awr ar y Sul, ond er mwyn hoelio ar eu meddyliau ym mlodau eu dyddiau mai "Achos Crist yw'r achos gorau" ac nad oes neb beth bynnag fo'u hoedran wedi dysgu'r cyfan sydd i'w wybod amdano - fod yna "rhyw newydd wyrth o'i angau drud yn dod o hyd i'r golau", ac mai "rhy fyr fydd Tragwyddoldeb llawn i ddweud yn iawn amdano." Mae teml diwylliant y fro wedi teimlo rhyw gryndod mawr y dyddiau hyn am fod un o'i cholofnau cadarnaf wedi disgyn.

2. Dysg y Fro

Bu addysgu yn ffordd o fyw i Miss Wyn ar hyd ei hoes. Yn ystod ei gyrfa hi fel athrawes yn Birmingham, Cyffordd Llandudno ac yn arbennig yn Neinlolen bu'n fawr ei dylanwad ar blant a dyfodd i fod yn famau, tadau, teidiau a neiniau sydd hyd heddiw yn sirad amdani gydag annwyldeb a pharch aruthrol. Collodd gwsg yn poeni am eu dysg, a threuliodd oriau yn llawenhau yn eu llwyddiant. Dydw i ddim yn meddwl fod plentyn wedi gadael drwy ddrws yr ysgol, nad oedd ganddi rhyw syniad am eu hynt a'u helynt. Fel y crybwyllais eisoes roedd yna rhyw agwedd fugeiliol Gristnogol yn rhan o'i gwaith fel athrawes, a alluogodd llawer o'i disgyblion i droi yn ôl ati ym mhen blynyddoedd yn eu gofid a'u pryderon. Ysgrifennodd Waldo Williams gerdd fel teyrnged i'w fam Angharad. Wrth hel fy meddyliau yn ystod y dyddiau diwethaf daeth y gerdd i'm cof, yn arbennig un pennill:

Dros lawer y pryderai
Liw nos, a chydlawenhau.
Synhwyro'r loes, uno â'r wledd
Yn eigion calon coledd.
I'w phyrth deuai'r trafferthus
A gwyddai'r llesg ddôr ei llys.
Gŵn ysgarlad Angharad oedd
Hyd ei thraed, o weithredoedd.

Felly Elen Wyn Jones. Do fe deimlodd Teml Dysg y fro rhyw wacter mawr ar ymddeoliad cynnar y golofn, ond crynodd pan ddisgynodd y golofn.

3. Dawn y Fro

Un a ddoniwyd yn helaeth mewn llawer maes. Ysgrifennu, hyfforddi ac actio mewn dramâu. Fel y gŵyr y cyfarwydd perthynai i gwmni drama enwog Garthewin. Yn 1947 gofynnodd Chwarewyr Garthewin i Saunders Lewis am ddrama ganddo i'w pherfformio. "Euthum yn ôl" meddai, "at Flodeuwedd a thrwsio peth ar ymadrodd y ddwy act gyntaf a gorffen y gwaith. (a ddechreuwyd ganddo yn yr 20au) Yr oeddwn yn falch o'r cyfle." Pwy oedd y Flodeuwedd honno ond Elen Wyn Jones. Ac fel gyda phopeth arall ymdaflodd i'w rôl gydag afiaeth ac angerdd mawr. Yn wir cymaint ei hangerdd bu bron iddi grogi'r ferch a chwaraeai'r forwyn Rhagnell, drwy dynnu ei gwallt mor dynn o gwmpas ei gwddwg, llewygodd a gorfu iddynt gymryd seibiant nes i'r actores gael cyfle i ddod ati ei hun. Yn ystod yr wythnosau diwethaf tynnais ei choes y gallai fod yn y carchar am ei llofruddio. "O na," meddai, "yn y cyfnod hwnnw gallent fod wedi fy nghrogi am ei llofruddio!" Roedd ganddi rhyw bresenoldeb urddasol oedd yn mynnu eich sylw. Roedd hi'n wraig hardd ac heb os nac onibai yn un o'r merched hawddgaraf a gwrddais i erioed. Ond ei dawn pennaf oedd gweld dawn yn rhywun arall. Ond un peth yw gweld y ddawn peth arall yw treulio'ch hoes yn meithrin y doniau a welwyd. Mae yna bobl sy'n bresennol yma heddiw sydd wedi cyfrannu'n huawdl i lawer maes, a fyddai hwyrach wedi tyfu heb sylweddoli'r doniau cudd oedd ganddynt oni bai fod y wraig hon wedi bod yn ddigon craff i'w darganfod. A'igogoniant hi, wrth gwrs, oedd gweld fod Duw yn ei gariad anfeidrol wedi plannu rhyw ddawn ym mhob enaid byw. Rhoes gyfle i bawb yn ddiwahân. All neb edliw iddi na chawsant gyfle pwy bynnag ydynt. Os bydd rhywun yn y dyfodol yn croniclo hanes cyfoes y fro hon, fe fydd yn gyfrol anghyflawn os na fydd enw Elen Wyn Jones yn amlwg. Mae Teml Dawn y Fro wedi gwegian pan syrthioddd y golofn hon.

Onid yw'r dyn yma'n ddigalon meddech chi? Wel, na, i'r gwrthwyneb. Er fod colofn a fu'n ddangosiad o gadernid wedi cwympo, sylwch nad wyf wedi awgrymu o gwbl fod unrhyw deml wedi syrthio. Wedi crynu a siglo, do. Ond rwy'n berffaith sicr mai'r hyn mae Miss Wyn am ei ddweud wrthym yw: "Mae hi i fyny i chi nawr!" Yn eich gwahanol gymdogaethau, yn y cymunedau hynny sydd dan warchae fe fydd angen sawl colofn i wneud i fyny am y golled, ond dim ond i ni gymryd canran o'r pwysau a gymerodd y golofn hon fe fydd rhyw gymaint o siâp ar ein temlau. Beth fydd tynged y golofn a syrthiodd? – mae deunydd y golofn yma yn rhy werthfawr i'w gladdu a'i golli yn llwch yr amser gynt. Er i'r golofn gyflawni ei gwaith yn ein temlau daearol ni mae wedi ei hail godi mewn teml arall. "Am i ti gadw fy ngair a dyfalbarhau, ie ac am i ti orchfygu, mi a'th wnaf yn golofn yn nheml fy Nuw i, ac nid â allan oddi yno byth". Ie, colofn yn nheml Duw ei hun, ac mi fentraf awgrymu i chi fod Elen Wyn yn ystyried mai dyna'r fraint fwyaf a ddaeth i'w rhan.

Ac i ninnau sydd mewn hiraeth dwys amdani, "Rhown iddi o ffrwyth ei dwylo, a bydded i'w gwaith ei chanmol yn y pyrth."

*Olaf Davies*

## *Parhad* DINORWIG

**Llongyfarchiadau** a dymuniadau gorau i Mrs M. Morris, Minffordd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 99 mlwydd oed ar Fehefin 11.

**Moduron Padarn** Drwg oedd gennym golli Moduron Padarn oddi ar y ffyrdd. Manteisiaf ar y cyfle yma i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth i'r ardal yma, gan fod y rhan fwyaf o'u gyrwyr yn gwrtais ac yn fodlon cynorthwyo y rhai anabl. Byddai y moduron yma yn gwneud eu gorau i ddod i fyny i'r ardal er bod y tywydd a'r eira yn broblem ar adegau. Felly diolch yn fawr i'r swyddogion a'r gweithwyr am eu gwasanaeth.

Hefyd rhaid diolch i Gyngor Gwynedd am allu gyrru moduron i fyny yma mor sydyn, gan fod bws 7 ac 8 o'r gloch y bore canlynol wedi dod, ac y mae'r gwasanaeth yn dda iawn rwan.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu gwasanaeth a'u cymorth.

*Elen Wyn Jones*

Un aelod dyna Neli-un or fro
y fraich ym mhob cynni
I'r plant, mor hael bu'r anti
hyd oes dda, Sardis oedd hi.

*Richard Ll Jones.*


Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol
**Am gymorth:**
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â**
**Mantell Gwynedd**
- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271





**TEITHIAU CERDDED MIS GORFFENNAF 2014.**

SUL 13 GORFFENNAF 2.00 yp
PENTIR A CARREG Y GATH, RHIWLAS:
O'R OES EFYDD I'R PRESENNOL (3½ milltir)
Cychwyn: Tafarn Y Faenol, Pentir.
Bryniog a Llwybrau Cyhoeddus. Angen Sgidie Cerdded.

GWENER 18 GORFFENNAF 2.00 yp
DARGANFOD TREBORTH A PENRHOSGARNEDD (3½ milltir)
Cychwyn: Maes Parcio Tafarn yr Antelope ger Pont y Borth
Cymhedrol. Sgidie Cerdded.

GWENER 25 GORFFENNNAF 2.00 yp
CLWT Y BONT I BERAN AR HYD Y DRAMFFORDD (2 filltir un ffordd)
Cychwyn: Caffi EB's, Deiniolen
NID YN GYLCHDAITH. TREFNWCH TRAFNIDIAETH YN OL O'R BERAN.
(NEU CERDDED YN ÔL GYDA NI YR UN FFORDD)
UN LLWYBR GALLU BOD YN WLYB. ANGEN SGIDIE CERDDED.

MAWRTH 29 GORFFENNAF 2.00 yp
TAITH I'R PLANT: YBRYDION A CHWEDLAU LLANBERIS (2½ milltir)
Cychwyn: Cyntedd Mynydd Gwefru, Llanberis

IAU 31 GORFFENNAF 6.30 yh
TAITH CADW'N HEINI: LLANDDEINIOLEN A BETHEL – Y LÔN RUFEINIG. (4 milltir)
Cychwyn: Tafarn y Gors Bach, Llanddeiniolen.
CYMHEDROL. UN LLWYBR GALLU BOD YN WLYB. ANGEN SGIDIE CERDDED.

CYSYLLTWCH A GARETH ROBERTS AR 01286 872014 AM RHAGOR O FANYLION

# CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

## Lladin, Hackney ac Elfennau Daearyddiaeth.

Yn dilyn y cais ynglŷn â'r arysgrif Lladin ym Methel, daeth galwad ffôn gan Phil Jones, Deiniolen yn cynnig cyfieithiad – nid oherwydd ei fod yn ysgolhaig Lladin, ond am iddo fwydo'r ysgrifen i 'Google translate' ! Ond diolch iddo am wneud hynny, a dod a stori ddiddorol i'r amlwg. Yn Gymraeg mae'r arysgrif yn darllen fel hyn: "Yma y claddwyd Griffith Hughes, Cefn Uchaf, disgybl yng Ngholeg Hackney, Llundain. Bu farw ar y 4ydd dydd o Fedi 1837 yn 27 oed."

Roedd Griffith yn fab i Hugh ac Ann Hughes, Cefn Llan Uchaf, Llanddeiniolen, ac yr oedd ganddo o leiaf bedwar o frodyr – David, Richard, Hugh a William, ac un chwaer, Mary. Roedd Griffith yn ugain oed yn cael ei dderbyn i'r eglwys ym Methel, a thraddododd ei bregeth gyntaf yno ar Fedi 1af 1833. Roedd yn awyddus i fod yn genhadwr, a dechreuodd ar ei gwrs coleg yn Hackney ym mis Medi 1834. Cwblhaodd ddwy flynedd o'r cwrs cyn cael ei daro'n wael, ac er derbyn gofal meddygon yn Llundain, penderfynwyd ei anfon yn ôl gartref yn y gobaith o gael adferiad iechyd. Ond nid felly y bu, a bu farw yn ŵr ifanc 27 oed ym mis Medi 1837.

Ganed David Hughes yn 1813, a bu yntau hefyd yn ddisgybl (neu fyfyriwr) yn Ngholeg Hackney, cyn graddio yn Glasgow. Mae'n amlwg mai teulu o anghydffurfwyr oedd teulu Cefn Llan Uchaf – er mor agos oeddent i eglwys y plwyf, - ac i Gapel Bethel yr aent i addoli. Yno y dechreuodd David Hughes bregethu yn bedair ar bymtheg oed. Wedi graddio, bu'n gweinidogaethu yn Llansansior, ger Abergele a Great Jackson Street, Manceinion cyn symud i Fangor i gadw ysgol. Ym 1855 aeth yn weinidog i Saron, Tredegar, ac yno y bu hyd ei farwolaeth yn 1872.

Roedd David Hughes yn ysgolhaig, ac chyfrannodd nifer o ysgrifau i'r Gwyddoniadur. Cyhoeddodd hefyd Eiriadur Ysgrythurol a Duwinyddol. Yn 1859 cyhoeddodd un o'r llyfrau cyntaf o'u bath yn y Gymraeg, sef Elfennau Daearyddiaeth.

Mae'n bosibl felly mai David fu'n gyfrifol am osod y geiriad Lladin ar garreg fedd ei frawd.

Mae casgliad o lawysgrifau yn Archifdy'r Brifysgol ym Mangor yn ymwneud â theulu Hughes, Cefn Llan Uchaf, gan gynnwys llythyrau oddi wrth David i'w frawd William.

Ond pam tybed yr aeth dau frawd o Landdeiniolen mor bell a Hackney i dderbyn addysg golegol? Bryd hynny, plwyf eithaf gwledig ar gyrion Llundain oedd Hackney. Yn y cyfnod hwnnw, rhaid cofio fod y prifysgolion, yn enwedig Caergrawnt a Rhydychen, yn cyfyngu eu myfyrwyr i aelodau Eglwys Loegr, neu o leiaf i rai oedd yn fodlon tyngu llw o ffyddlondeb i'r eglwys honno. Gan mai anghydffurfwyr o annibynwyr oedd Griffith a David Hughes, doedd yr un o'r ddau yn fodlon tyngu'r fath lw, ac felly, doedd dim amdani ond mynychu colegau (neu academi fel y gelwid nifer ohonynt) a sefydlwyd gan anghydffurfwyr. Wedi cwrs yn y fath golegau, roedd yn bosib iddynt wedyn fynychu prifysgolion yn yr Alban i gael gradd.

Dywedir mai'r Dr Arthur Jones, Bangor fu'n gyfrifol am gael lle i'r ddau frawd yng Ngholeg Hackney, a'i fod hefyd wedi noddi Griffith.

Tybed beth fyddai hynt a helynt Griffith, pe bai yntau, fel ei frawd, David, wedi cael iechyd i orffen ei gwrs coleg?

Ond beth am weddill y teulu? Cawsant ergydion trwm yn ystod y flwyddyn 1837-38. Yn ogystal a marwolaeth Griffith, bu farw'r fam, Anne Hughes ym mis Mai 1837 yn 64 oed. Yna yn Ebrill 1838 bu farw brawd arall, Hugh, yn 41 oed; ac ym Medi o'r un flwyddyn collwyd Hugh y tad yn 69 oed. Claddwyd y tri ohonynt hwy ym mynwent Llanddeiniolen.

Erbyn 1841 dim ond dau frawd oedd yn dal yn Cefn Uchaf, sef William a Richard; y ddau yn ddi-briod. Rywdro yn ystod y deng mlynedd nesaf priododd William efo Gaynor Jones o blwyf Llandwrog. Roedd y ddau yn dal yn y Cefn yn 1851, ynghyd a mam Gaynor, sef Elizabeth Jones oedd yn 79 oed. Mae'n ymddangos nad oedd plant o'r briodas hon. Nid oedd Richard yno erbyn hyn. Bu Gaynor farw ym mis Mai 1878 yn 68 oed, a'i gwr, William ddiwedd Ionawr 1888 yn 81 oed. Maent wedi eu claddu ym Mynwent Llanddeiniolen yn y bedd agosaf at y rhieni. Yn yr un bedd claddwyd Mary Thomas (merch y Cefn Ucha, a chwaer y pum brawd) yn Nhachwedd 1862 yn 64 oed. Roedd hi'n byw yn Cefn Cynrig, Bethel. Hefyd yn yr un bedd mae ei brawd, Richard, a fu farw yn Awst 1853 yn 37 oed. Ar ei farwolaeth roedd yn byw yn Rhos y Gad, Llanbedrgoch, Môn. Mae dau arall wedi eu claddu yno hefyd, sef Jane Thomas, Cefn Cynrig, fu farw ym Mai 1908 yn 67 oed a'i gwr, Robert Thomas, fu farw ym Mawrth 1918 yn 83 oed. (Mae'n bosib fod Robert yn fab i Mary, ac yn ŵyr i Hugh ac Anne Hughes, Cefn Ucha. Ni allaf gadarnhau hynny ar hyn o bryd).

Yn y bedd teuluol, claddwyd Hugh ac Anne a'u mab,Hugh o fewn blwyddyn i'w gilydd yn 1837-38. Ond mae un arall wedi ei gladdu yno hefyd, sef Hugh Roberts, fu farw ym Mai 1906 yn 80 oed. Ac un o Ros y Gad, Llanbedrgoch oedd yntau! Beth tybed oedd cysylltiad y teulu a'r rhan hon o Sir Fôn?

Oes rhai o ddisgynyddion y teulu – Cefn Ucha neu Gefn Cynrig – yn parhau yn yr ardal heddiw? Rhowch wybod.

## Standard 3 Ysgol Ganol Llanrug.

Roedd John Glyn Hughes, a anfonodd lun o du mewn y dosbarth, yn amau mai hanner llun oedd yn ei feddiant, a bod yr hanner arall ar goll. Nid felly yn ôl John Ellis o Gaernarfon. Daeth yntau ar y ffôn yn dweud mai llun o fechgyn y dosbarth yn unig yw hwn. Ni wyddai os oedd llun wedi ei dynnu o'r genethod! Mae'n amau mai Les Larsen oedd yr athro ar y pryd, ac mai ef fu'n gyfrifol am dynnu'r llun. Cred John Ellis hefyd fod y llun yn dyddio o ganol y 1950'au.

Gall enwi pawb yn y llun. Ar y dde mae John Glyn, gydag Alwyn Morris (Ceunant) o'i flaen a John Ellis wrth ei ochr. Tu cefn iddynt mae Gareth Wyn Jones (Glanmoelyn bryd hynny) a Gareth Henry Jones (Ceunant) Mae'r grwp o bump ar y chwith yn fwy anelwig, ond yn cynnwys Howard Morris (byw mewn bwthyn bach rhwng Parc y Rhos ac afon Saint), Brian Jones, Crawia, Emrys Wyn Jones (a fu farw'n fachgen ifanc yn weddol fuan ar ol gadael yr ysgol) a Bryn Lewis. Mae'n amau mai Selwyn, brawd Alwyn yw'r bachgen a rhan o'i wyneb wedi ei guddio.

Y cwestiwn sy'n aros yw – oes llun o'r genethod ar gael yn rhywle?

# Rhiwlas a'r cylch.




Yn ddiweddar cefais fenthyg traethawd (heb ddyddiad) ar beth o hanes Rhiwlas a'r cylch – ardal ar gyrion bro'r 'Eco'. O ddarllen y nodiadau, tybiaf fod y cyfan wedi ei ysgrifennu tua diwedd y 1960'au. Mae damcaniaeth, nas gellir ei phrofi ar hyn o bryd, ynglŷn â pham y rhoddwyd yr enw Rhiwlas ar y pentref. Yn ôl yr awdur, rhai o deulu'r Rhiwlas ger y Bala, Meirionnydd a ddaeth yma i fyw gyntaf, gan ymsefydlu yn y Llidiart Mawr a gofalu am Lidiart y Mynydd. Honna'r awdur fod yn rhaid talu i fynd trwy'r llidiart hwn ers talwm, ac mae'n enwi hynafiaid teulu Cae'r Gof fel ceidwaid y llidiart. Richard Price oedd enw'r gwr, a Catrin oedd ei wraig. Dywed mai un o Benmorfa oedd Catrin ac iddi fod yn gweini i deulu'r Faenol. Symudodd Richard Price yn ddiweddarach i Garreg y gath. Tybed faint o wirionedd sydd yn yr hanes?

Mae hefyd yn son am Blas Pentir, ac fel y bu bri mawr ar y lle ganrif a hanner yn ôl i gyfnod ysgrifennu'r traethawd (sef tua 1800). Roedd y teulu yn enwog am eu ceffylau rasio a'u cwn hela. Gamblo oedd eu hoff ddiddordeb, ac er iddynt ennill rhai miloedd o bunnau gyda'u ceffylau rasio, colli'r cyfan fu eu hanes yn y diwedd. Chwalwyd y plas a defnyddio'r cerrig i adeiladu Rhiwenfa a'r Swyddfa Bost. Roedd gardd a pherllan yn gysylltiedig â'r Plas, a byddai'r teulu yn garedig gyda'r trigolion, ac yn rhoi gorchymyn i'r garddwr i rannu'r cynnyrch.

Anfonwyd y llun cynnar o bentref Rhiwlas gan Meirwen Owen, Frondeg, Rhiwlas, a'r dyddiad arno yw Medi 1913.

**Cawn fwy o hanesion o'r traethawd yn rhifyn nesaf yr 'Eco'.**
**Cysylltwch ynglŷn ac unrhyw agwedd o hanes y fro drwy anfon i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)**

**Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 19ain, yn Ysgol Beddgelert am 2 o'r gloch, bydd diwrnod i godi arian ar gyfer Cancr Y Fron (Strawberry Tea).**

*Mynediad am £5, fydd yn cynnwys te a chacennau, a bydd raffl ar gael hefyd!*

*Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Dawn (01766530402)*

*neu Alice (01766890565). Croeso cynnes i bawb.*

ECO'r Wyddfa

## Cefnogwch ein hysbysebwyr

**Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau**



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*
**Sion Roberts 07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

**BYSUS RHIWLAS**
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



**D. P. OWENS RHIWLAS**



**Llongyfarchiadau** i Elin Dafydd ar dderbyn yr ail wobr yn yr Unawd Corn Blwyddyn 4 ac Iau yn Eisteddfod Bontnewydd a hefyd i Bethan Moult ar dderbyn y wobr 1af ar yr Unawd corn blwyddyn 7,8 a 9 yn Eisteddfod Bontnewydd.



# Ysgol Gwaun Gynfi Eisteddfod yr Urdd yn y Bala -

Parti Cerdd Dant
Gwenno, Eli, Dafydd,
Ioan, Alaw, Erin Wyn, Erin Lewis Elin Dafydd a Rhun
Cân Actol
Hannah, Liam, Eli, Ioan, Gwion Llewelyn
Beca, Alaw, Erin Wyn, Erin Lewis, Elin Dafydd, Gwion Wyn, Dafydd.
Jac, Siôn, Catrin a Rhun.
Erin Wyn fu'n cystadlu ar yr unawd Bl2 ac iau ac Osian fu'n cystadlu ar yr unawd cerdd dant. Daeth yn ail ar yr unawd.
Glan Llyn
Gwenno, Liam, Deian, Gruffydd, Haf, Gwion Wyn, Gwion Llewelyn a Daniel fu am benwythnos yng Ngwersyll yr Urdd Glan-Llyn yn ystod mis Mehefin.
Mabolgampau'r Urdd
Siôn, Elin ag Eli fu'n cystadlu yn mabolgampau'r Urdd yn Treborth yn ddiweddar.
Ras am Fywyd
Angharad Jones blwyddyn 4 gymerodd ran yn y Ras am Fywyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Llwyddodd i redeg 5 cilometr a chodi dros £200.







H. E. HUGHES
A'i Feibion
Bwthyn Gadlys Llanberis


GWERTHWR GLO ac OLEW GWRES CANOLOG
(01286) 870444



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia

## Y Seindorf



Dydd Sul y 15ed o Fehefin cystadlodd Seindorf Ieuenctid Deiniolen am y tro cyntaf mewn cystadleuaeth awyr agored i fandiau Pres yn Y Drenewydd. Roedd wyth band yn cystadlu a daeth Seindorf Ieuenctid Deiniolen, o dan arweiniad Osian Tomos, yn fuddugol gan gipio'r wobr am y band ieuenctid gorau. Derbyniodd y Seindorf ganmoliaeth uchel gan y beirniad, Nigel Seaman. Roedd 30 o aelodau yn y band ac roedd pawb wedi mwynhau y profiad yn fawr. Hoffai Osian ddiolch yn fawr iawn i'r holl aelodau am eu gwaith caled cyn y gystadleuaeth a hoffai yn ogystal ddiolch i bawb oedd wedi cynorthwyo i hyfforddi'r band. Aeth bron i 60 o bobl ar fws yr Express i lawr i'r Drenewydd, yn gefnogwyr a ffrindiau, a gwelwyd y band ieuenctid yn gorymdeithio am y tro cyntaf!! Gan fod y band ieuenctid yn hen lawia' bellach, nhw fydd yn arwain gorymdaith y Carnifal fel rhan o uchafbwynt Gŵyl Deiniolen ar ddydd Sadwrn, Mehefin 21ain. Bydd y band ieuenctid yn cychwyn ymarfer tuag at gyngerdd blynyddol y Seindorf a gynhelir ddiwedd Medi ac yn paratoi at Bencampwriaeth Gogledd Cymru yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Llongyfarchiadau mawr i'r band ar eu llwyddiant yn y Drenewydd, ac os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymuno â'r band ieuenctid neu'r band iau yna cysylltwch ag Osian neu Llio ar 07717055639.

## Ysgoloriaeth Iwan Williams



*Ian Porthouse yn hyfforddi'r band fel rhan o'r ysgoloriaeth.*

Enillwyr cyntaf Ysgoloriaeth Iwan Williams oedd Seindorf Ieuenctid Deiniolen a daeth arweinydd band enwog Tredegar, Pencampwyr Prydain, sef Ian Porthouse, i'r Hen Felin y Sadwrn o'r blaen i hyfforddi'r chwaraewyr mewn Dosbarth Meistr. Roedd Ian a'i wraig, Leanne, yn gyfeillion agos i Iwan pan oeddent yn aelodau o fand YBS. Daeth eu mab, Harry, gyda nhw a chafodd pawb ddiwrnod bythgofiadwy.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Osian Tomos, arweinydd y Seindorf Ieuenctid. Gweithiodd yr ieuenctid ar bedwar darn o gerddoriaeth ar gyfer y gystadleuaeth yr wythnos ganlynol yn Y Drenewydd ac yn ystod y dydd rhoddodd Ian unawd ei hun yn ogystal â sgwrs ac roedd pawb wedi gwirioni. Cyn mynd adref, mwynhaodd rhieni a chyfeillion gyngerdd byr gan yr aelodau ac roedd pawb yn falch o weld gwraig Iwan, Lorraine, a'i fab Owen yno yn ogystal ac Euros, brawd Iwan. Cyflwynodd y Seindorf rodd fechan i'r arweinydd gwadd gan Owen ar ran pwyllgor yr Ysgoloriaeth ac yn garedig iawn cyflwynodd Ian a Leanne gerdyn wedi ei lofnodi ganddynt i bob aelod. Diolchir i bawb oedd yn gyfrifol am drefnu'r diwrnod ac am y lluniaeth. Dywedodd Ian wrth y wefan boblogiadd 4 Bars Rest,
"Dyma'r criw o bobl ifanc mwyaf talentog dwi wedi cael y pleser o'u harwain ers blynyddoedd." Os hoffech ragor o fanylion am yr Ysgoloriaeth yna mae tudalen Facebook arbennig wedi ei chreu sef http://www.facebook.com/YsgoloriaethIwanWilliamsScholarship
Roedd hwn yn brofiad arbennig iawn i'r holl aelodau, profiad fydd yn aros gyda nhw am byth.



**Diolch** Fe hoffai Tony a Lyndsey ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Elsa Gwyn Vaughan Pleming. Ganed Elsa ar y 5ed o Fehefin yn pwyso 6 phwys a 12 owns. Mae Cian a Rhun wedi gwirioni hefo'u chwaer fach newydd.

**Arddangosfa** gan Glyt-weithwyr Peris yn Festri Capel Rehoboth, Nant Peris, rhwng 11yb a 2yp, ddydd Mercher, Gorffennaf y 30ain. Mynediad £1, fydd yn cynnwys paned o de. Elw'r diwrnod i fynd at achosion da, lleol.

**Eisteddfod yr Urdd** Llongyfarchiadau i Osian Trefor ar ei lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd eleni yn y Bala, enillodd yr ail wobr yn yr Unawd i flynyddoedd 3 a 4. Hefyd, llongyfarchiadau mawr i Erin Wyn a fu hefyd yn cystadlu yn yr Eisteddfod ar yr Unawd i flynyddoedd 1 a 2. Bu Lleisiau Llanbabs hefyd yn cystadlu gyda pharti Cerdd Dant tra bod plant yr Aelwyd hefyd wedi bod yn brysur yn y gystadleuaeth Cân Actol. Llongyfarchiadau hefyd i bobl ifanc y pentref fu'n rhan o gôr a band Ysgol Brynrefail a fu mor llwyddiannus.

**Eisteddfod Clynnog** Llongyfarchiadau i Osian Trefor ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Unawd a Llefaru ac am dderbyn gwobr llwyddiant arbennig yr Eisteddfod. Hefyd yn yr Eisteddfod, enillodd Erin Lewis y wobr gyntaf ar yr Unawd, gyda Elin Dafydd yn cipio'r drydedd wobr ar yr Unawd ac hefyd y drydedd wobr ar yr Unawd Corn.

**Llongyfarchiadau** Pob dymuniad da i Tony a Lyndsey ar enedigaeth eu merch fach, Elsa Gwyn, yn ddiweddar, chwaer fach i Cian a Rhun.

**Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen** Gofynnir i unrhyw un sydd gyda diddordeb i redeg y tîm dan 7 ag 11 i gysylltu gyda Glyn cyn gynted ag y gellid, mae'n debygol mai dim ond un tîm, sef y tîm dan 9 fydd yn chwarae y flwyddyn nesaf ac felly gofynnir yn garedig am wirfoddolwyr i gynnig eu help ar gyfer y tymor sydd i ddod. Diolch i bawb sydd wedi cefnogi a helpu gyda'r timau dan 11 a 9 yn ystod y flwyddyn ddiwetha ac, wrth gwrs, i'r holl chwaraewyr am eu ymdrechion caled yn ystod y flwyddyn.

**Gŵyl Deiniolen a'r Cylch** Wrth i'r Eco fynd i'r wasg, mae'r ŵyl yng nghanol cynnal ei gweithgareddau am eleni, cynhaliwyd cyngerdd coroni'r frenhines Alis yn Eglwys Llanddinorwig ac fe cafwyd noson hynod o lwyddiannus yng nghwmni Lleisiau Llanbabs, Côr Dre, Catrin Llewelyn, Osian Trefor, Erin Wyn a pharti canu Cadwyn.

**Wythnos Cymorth Cristnogol 2014** Cyfanswm yr arian a godwyd yn y pentref eleni oedd £950. Mae y swm yma yn cynnwys £120 a godwyd gan ddisgyblion Ysgol Gwaun Gynfi a gafodd wisgo dillad eu hunain ar ddydd Gwener, 16 Mai.
Diolch i bawb a gyfrannodd yn ystod yr wythnos yma.

**Pen-blwydd Hapus** i ddynes arbennig iawn, sef mam a nain, sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar Gorffennaf 5ed. Pob lwc, Mona Parry, 13 Hafod Olau. Cariad mawr gan Leonard, Lynda, Glenda, Geraint a'r teulu oll.


Dymuna Eira Wyn Hughes, Rhes Marian, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i staff Ward Enlli am y gofal arbennig ac i adrannau eraill o'r ysbyty a fu'n gofalu amdani. Diolch yn fawr i bawb.

## Ni allaf roddi teitl i...

Ni allaf roddi teitl i'm soned y mis hwn. Mae llawer yn cynnig eu hunain – 'Y flwyddyn honno', 'Emlyn Jones' [tad Arfon a Cecil, cyd-chwareaewyr â mi yn nhîm Ysgol Brynrefail – erstalwm, 'T Rowland Hughes' - rwyf yn grediniol mai dyma'r adeg y deffrowyd ynof fy serch at lenyddiaeth Cymru. 'Clefyd Siwgr' – yr aflwydd yna sy'n amharu ar gymaint – ond sydd y dyddiau hyn o dan fwy o reolaeth meddygol! Neu efallai 'Beryl Noel Williams' [Lynch] – mam y teulu enwog, gan gynnwys Gwion a Peredur! Hi gadwodd 'petha' ar fynd yn absenoldeb J.E. Williams, y Pennaeth yn Ysgol Dinorwig.

Bu yr hen Wilias Sgŵl, unwaith o'i waith
am hir oherwydd rhyw hen gyflwr blin,
dyna pryd y bu raid ailwampio y gwaith
o'n dysgu – a phryd y daeth Emlyn Jôs i'n
cymryd – ddosbarthiadau hŷn – y Rŵm Fawr!
Yr hyn a ddaw i'm cof, ac erys byth
yw'r athro imerjensi trênd un awr
brynhawn Gwener a'i ddawn drama, yn syth
fy nal yng ngwe a rhamant bywyd bro…
O hynny ymlaen ac 'O Law i Law'
a ddramaeiddiai, bennod ar y tro,
yn barod ar ei ddesg; - nid rhaid rhoi taw
ar anystywallt griw – yr oedd Llanbêr,
y chwarel a'i phobol yn stwff fy mêr.

Norman Closs



GWYNANT PIERCE
CYNYRCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU CYSTADLEUOL
Uned 1
Fferm Bryn Afon
LLANRUG
(01286) 674183
07889899901


ECO'r *Wyddfa*

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**







Caffi Caban
ar agor
9 y bore tan 4 y pnawn- 7 diwrnod yr wythnos
Cwmni -cydweithredol Di-elw Yw Caban Cyf
Wedi Ei Sefydlu i
Hwyluso Datblygiad Economaidd Cefn Gwlad
Nod Caban Cyf, yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig , Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffy a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (UNEDAU BUSNES CABAN) ER MWYN CREU CYFLEOEDD GWAITH
Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)
Caban cyf

# Pwyllgor Apêl Ward Alaw




Ar y 6ed o Fehefin trefnwyd taith ar drên bach Llyn Padarn gan Bwyllgor Apêl Ward Alaw i godi arian er mwyn cael mwy o offer i'r ward

Dechreuodd y daith o orsaf Llanberis a chafwyd taith bleserus i Gei Llydan sydd bron hanner ffordd i lawr y llyn. Yno yn disgwyl i ddiddanu'r teithwyr roedd deg o wirfoddolwyr o Fand Biwmares. Tra'n gwrando ar y band cafodd y 200 o deithwyr becyn o fwyd bendigedig wedi ei baratoi gan staff Menter Fachwen, hwythau hefyd yn rhoi yn hael o'u hamser i gefnogi'r apêl. Braf oedd gweld cymaint o blant wedi dod a diolch i rieni am godi ymwybyddiaeth eu plant i bwrpas y daith

Diolch yn arbennig i Gwmni Rheilffordd Llyn Padarn am eu haelioni a'u trefniadau ac i'r holl deithwyr o'r ardal a ddaeth am dro ar y trên bach. Hefyd i'r nifer sylweddol a fethodd â dod ond sydd wedi cyfrannu yn arbennig o hael i'r achos.

Llwyddwyd i godi £2000 i gronfa Ward Alaw a charwn ddiolch i bawb a wnaeth y daith yn llwyddiant cymdeithasol ac ariannol

Menai Thomas (Aelod o'r Pwyllgor)





PROBLEM GYDA'CH CYFRIFIADUR?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a GWELLA EICH CYFRIFIADURON CYSYLLTWCH A

GOMER ROBERTS

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur

(01286) 870462 Symudol- 07962 712368

## Sgwarnaw.

Defnyddiwch y llythrennau (unwaith yn unig) i ffurfio geiriau pedair llythyren neu fwy. Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. O ddefnyddio'r holl lythrennau gallwch ffurfio enw lle yng Nghymru. Rhaid defnyddio'r llythyren yn y sgwar canol ym mhob gair.

| | | |
|---|---|---|
| T | Y | D |
| A | P | R |
| E | N | I |

Y mis hwn:

5 gair = da;

10 gair = da iawn;

15 gair neu fwy – ardderchog.

Ateb y mis diwethaf: Glansefin.



# Eisteddfod yr Urdd Bala

Cerddorfa.

Llongyfarchiadau a diolch i'r holl ddisgyblion a'r staff a fu'n eu hyfforddi a'u cefnogi. Mae pawb a fu'n cystadlu yn y Bala yn cynrychioli'r ysgol ac Eryri yn haeddu clod mawr. Dyma'r rhai a fu'n llwyddiannus o ran ennill y wobr 1af, 2il neu 3ydd:

Cystadlaethau'r Llwyfan

1af Côr B7-9
1af Band yr Ysgol
1af Math Roberts: Cyntaf ar Unawd Piano dan 19
2il Magi Tudur 9I, Unawd Merched B7-9
2il Owain Llestyn Thomas 8O, Unawd Offeryn Pres B7-9
2il Anna Wyn Jones 13.1, Monolog Dan 19
3ydd Ensemble B7-9
3ydd Huw Emrys Williams 9N, Unawd Chwythbrennau B7-9

Hefyd, yn cystadlu fel criw o Aelwyd Bethel ond yn ddisgyblion Ysgol Brynrefail i gyd:

2il -Angylion Kelly, Grwp Dawnsio Stryd/Hip Hop

Cystadlaethau Gwaith Cartref

1af Math Roberts 10S, Cyfansoddi Cerddoriaeth B10-11
2il Cywaith B7-9, Cylchgrawn 'Bacha'i Yma!'
3ydd Mared Ynyr 12.1, Rhyddiaith Dan 19


Cerddorfa



Côr


Angylion Kelly


Anna Wyn

# "Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd"
















## Steddfod yr Urdd 'sgubol i Ysgol Brynrefail!

**Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion Ysgol Brynrefail a ddaeth i'r brig mewn cynifer o gystadlaethau yn y Bala yn ddiweddar**

## Cystadlaethau Gwaith Cartref

Hyd yn oed cyn i'r cystadlu ddechrau ar lwyfan y pafiliwn yr oedd newyddion da am lwyddiannau yn y cystadlaethau gwaith cartref wedi cyrraedd yr ysgol. Gwnaeth Math Roberts 10S yn rhagorol gan ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth cyfansoddi cerddoriaeth i flynyddoedd 10-11. Yn drydydd yn y gystadleuaeth ysgrifennu rhyddiaith dan 19 oed oedd Mared Ynyr blwyddyn 12. Hi enillodd y gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail yn yr Hydref, llongyfarchiadau mawr iddi. Bu dathlu mawr ymysg criw'r sgwad sgwennu pan glywsant bod eu cylchgrawn wedi ennill yr ail wobr yn y gystadleuaeth i grwp ysgrifennu blwyddyn 7-9. Bu'r criw yma, sef disgyblion o flwyddyn 7, 8 a 9, yn brysur ar amser cinio yn ystod y gaeaf yn ysgrifennu er mwyn llunio cywaith ar y thema 'Bro'. Da iawn chi!

## Torfol

Yr oedd presenoldeb Ysgol Brynrefail yn amlwg iawn ar lwyfan y pafiliwn ar ddydd Iau a dydd Gwener y Steddfod. Da iawn Ensemble blwyddyn 7-9, sef Huw Emrys Williams, Rachel Franklin ac Elin Jones a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth hon.

Diolch i Mrs Anwen Edwards am hyfforddi Côr SA blwyddyn 7-9 yn canu Coch Bach y Bala. Yr oedd cyflwyniad y côr yn amlwg yn fwy direidus a hwyliog na'r ddau gôr arall gyrhaeddodd y llwyfan ac o ganlyniad i'r dehongliad hwnnw daeth Ysgol Brynrefail yn gyntaf yn y gystadleuaeth. Gwych!

Yn olaf daeth tro band yr ysgol i gystadlu ar y nos Wener. Mae Mr Dylan Williams wedi bod yn ymarfer yn brysur â'r band ac wedi bod yn eu hyfforddi ar gyfer y gystadleuaeth hon ers misoedd. Talodd ei waith caled ef ac aelodau'r band ar ei ganfed wrth i fand Ysgol Brynrefail ennill y wobr gyntaf yn goron ar wythnos arbennig o gystadlu yn hanes yr ysgol.

Diolch o galon i bawb a fu'n hyfforddi a pharatoi'r disgyblion hyn a'r rhai na lwyddodd i gyrraedd y llwyfan, ond yn bennaf oll diolch i'r plant eu hunain am eu brwdfrydedd a'u hawydd i gystadlu. Da iawn chi bob un a diolch yn fawr am yr hwyl wrth ymarfer a chystadlu.

## EISTEDDFOD YR URDD 2014

'Hoffwn, ar ran y Corff Llywodraethu, longyfarch y disgyblion, y staff a'r tiwtoriaid am lwyddiannau'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Hoffwn ddiolch o waelod calon, i'r disgyblion am eu perfformiadau yn eisteddfodau'r Cylch, y Sir a'r Genedlaethol, ac i'r staff a'r tiwtoriaid am eu gwaith caled yn meithrin, annog, hyfforddi a chefnogi'r disgyblion yn eu hymdrechion.

Maent i gyd wedi ein llenwi â balchder, ac maent wedi dod â chlod aruthrol i'r ysgol eleni - llongyfarchiadau i chi i gyd.'

Dafydd M. Roberts

Cadeirydd y Corff Llywodraethu

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y 3ydd o Fehefin 2014.

Yn bresennol: Y Cadeirydd Richard Ll. Jones a'r cynghorwyr Gwilym Williams, Geraint Elis, Jane Pierce, Carolyn Roberts, Phyllis Ellis, Siôn Jones, Elfed Williams, Idris Thomas, Rhian Evans, Hefin Williams a Phylip Jones.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll Jones.

1. Ymddiheuriadau. Rachel Williams, Aled Green a Geraint Hughes.

2. Datgan buddiant. Nid oedd datganiad.

3. Cofnodion cyfarfod y 1af o Ebrill 2014. Cywiriad – para' 4 Lôn Rhydau ac nid Lôn Crawiau.

Derbyniwyd y cofnodion, fel arall, yn rhai cywir.

4. Llwyddiannau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, penderfynwyd llongyfarch ysgol Brynrefail am lwyddiant y Band a'r Côr ac ysgol Bethel am ddod yn ail gyda'r ddawns.

5. Materion o'r cofnodion.

Cofebion Rhyfel Macpella. Cyflwynwyd dau bris am lanhau ac ail-lythrennu'r cofebion:

Tynnu'r cerrig a'u cludo i'r gweithdy, eu glanhau sawl gwaith gan ddefnyddio peiriannau diwydiannol, dwy gôt o baent gwyn i'r llythrennau, eu polisio rhwng pob côt a'u selio gan ddefnyddio hylif clir. Eu hail osod gan ddefnyddio bracedi newydd lle bo angen.

Derbyniwyd pris G.W. Davies.

Safle ail-gylchu Rhiwlas. Cyflwynwyd ateb Gwynedd yn amlygu'r anhawster o waredu'n anghyfreithiol yma a'r gost o glirio'r gwastraff. Gan bod gwasanaeth ailgylchu wythnosol o ddrws tŷ, oes angen y biniau yma bellach? Mae'r defnydd cyfreithiol o'r safle wedi gostwng yn sylweddol. Beth yw barn y Cyngor o gau'r safle? Trafodwyd hyn gan amau y buasai gwastraff yn dal i gael ei adael yno. Penderfynwyd awgrymu peidio cau'r safle a gosod mwy o arwyddion mawr "dim gadael gwastraff" yno.

Casglu biniau bob tair wythnos. Trafodwyd bwriad Gwynedd a phenderfynwyd gofyn iddynt wneud arbrawf am rhyw ddau fis gan fonitro'r sefyllfa yn aml. Tybed a fydd mwy o luchio anghyfreithiol pan fydd y biniau yn orlawn? Ychwanegodd Jane Pierce bod y gwasanaeth casglu sbwriel ar safle breifat Tŷ Mawr yn ddiffygiol iawn ac yn gostus. Gofynnodd Geraint Elis pam fod angen gwagio biniau brown trwy'r flwyddyn? Nid oes eu hangen pan na bo gwastraff gerddi.

Brynrefail. Ateb Gwynedd eu bod yn monitro'r cyfyngiad o 20mya trwy Gwm y Glo gyda'r bwriad o ystyried eu gosod mewn pentrefi eraill wedyn.

Groeslon Tŷ Mawr a Felin Hen. Ateb Gwynedd na allant ystyried arwynebedd caled ar y llecynnau parcio answyddogol ar hyn o bryd ond efallai y bydd cyllid ar gael yn y dyfodol.

- Bysiau Padarn. Cyfeiriwyd at ddiflaniad y bysiau. Derbyniwyd bod angen newid yr amserlenni ond rhaid i Wynedd gael amser i'w paratoi. Gofynnwyd hefyd a yw hyn yn gyfle i drefnu teithiau un cyfeiriad trwy Frynrefail?

Cyfrifon 2013/14 y Cyngor. Cylchredwyd copi o'r fantolen ariannol ymlaen llaw i'r aelodau, rhoddodd y Clerc fraslun o wariant y flwyddyn a chymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol.

Cymeradwywyd cyfrifon y flwyddyn a derbyn y fantolen ariannol yn ôl rheoliadau ariannol y Cyngor.

6. Gohebiaethau a materion eraill

Yswiriant blynyddol y Cyngor. Trafodwyd cynnwys y polisi a derbyniwyd pris Zurich Mutual o £374.02.

Un Llais Cymru. Angen dau gynrychiolydd o'r Cyngor i fynychu cyfarfodydd lleol. Cyflwynir y cais eto ymhen Mis.

Mynydd Pawb. Cyflwynwyd eu hymgyrch i berswadio Llywodraeth Cymru i osod newid enwau traddodiadol dan reolaeth cynllunio. Penderfynwyd anfon gair o gefnogaeth atynt.

7. Cynllunio

Cefn Braich, Rhiwlas. Dywedodd Rhian Evans bod y "rhybudd cynllunio" wedi ei dynnu oddi yno a bod y gwaith adeiladu yn amharu ar symudiadau ceir, pobl a phlant – cwyn i Wynedd.

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Tir ger Ael y Garth, Y Felinheli – cais ôl-weithredol ar gyfer gosod llinell drydan uwchben.

Sŵn y Llyn, Fachwen – codi estyniad un llawr a ffenestri cromen.

Groeslon Uchaf, Dinorwig – dymchwel estyniad a chodi estyniad deulawr.

Tŷ'n 'rardd, Llanddeiniolen – codi estyniad deulawr a modurdy.

Stryd fawr, Deiniolen. Gosodir llinellau melyn ar ran o'r stryd ar gyffordd ffordd Pentre Helen.

8. Llwybrau

Derbyniwyd y prisiau canlynol am dorri gwair:

Menter Fachwen £13.50 yr awr.

Martin Hosker am dwtio o gwmpas y Gofeb yn Ninorwig - £10 y tro

Keith Morgan – llwybrau Bethel - toriad cyntaf £175, ail doriad £153

Caeir llwybr 127, chwarel Dinorwig am gyfnod byr yn ystod Mehefin ar gyfer ffilmio.

9. O gwmpas y bwrdd

Rhian Evans - y gwasanaeth bysiau yn flêr ers gorffen Bysiau Padarn.

Elfed Williams – swyddog Gwynedd wedi addo paratoi a chyhoeddi amserlen resymol.

Idris Thomas –

1 Dim ond un blwch postio yn Neiniolen, mae gwir angen un ychwanegol yng nghanol y Pentref. Cais i'r Post Brenhinol

2 Wyneb y ffordd o Groeslon Racca i Glwt y Bont mewn cyflwr difrifol mae angen mwy na chlytio brys. Gofyn (eto) i Wynedd archwilio'r ffordd yma yn llawn ac yn unol â 'Chanllawiau Cynnal Asediadau Priffyrdd Gwynedd'. Da o beth fyddai i gynrychiolwyr Llanddeiniolen gyfarfod â'r Swyddogion Ffyrdd ar y safle – llythyr i Wynedd

3 Mae yna yrru afresymol trwy Ddinorwig – angen gwell arwyddion i gyfyngu cyflymder – llythyr i Wynedd.

4. Elfed Williams – angen golau ychwanegol yng nghefn Hafod Olau (nid yw'r Hafod mor olau yn y Nos!!) – cais i Wynedd.

5. Phylip Jones – Lôn Bwlch Uchaf – twll yn y ffordd a phant mawr yn y ffordd ger y gwaith dŵr.

6. Phyllis Ellis. Dau fws a charafan wedi mynd yn sownd ar hyd y Ffordd o Dan Gaer. Llythyr eto i Wynedd gan obeithio diweddu'r styfnigrwydd o beidio gosod arwydd yno.

7. Carolyn Roberts – Gwir angen cyfyngu cyflymdra i 20mya trwy Frynrefail a phwysleisio eto ar drafnidiaeth un ffordd.

8. Geraint Elis – gan bod cwmni bysiau newydd yn dechrau dylai fod yn haws iddynt benderfynu ar un cyfeiriad.

9. Hefin Williams – tyfiant yn amharu ar y goleuadau ger sgwâr y post a lleoliadau eraill ym Mrynrefail

- 10. Llyn Padarn. Cyfeiriwyd at fuddugoliaeth y Gymdeithas Bysgota Leol yn sicrhau cyfiawnder er gwaetha difaterwch y Bwrdd Dŵr a phenderfynwyd anfon gair i'w llongyfarch trwy law Huw P. Hughes
- Dyddiad y cyfarfod nesaf: 1af o Orffennaf 2014.
- 11. Clerc.

Penderfynwyd hysbysebu swydd y clerc yn Eco'r Wyddfa ac yn yr Herald.

Amodau: Cymraeg yn hanfodol.

Manylion cyflog ayyb i'w cael gan y clerc presennol.

Dyddiad cau i'r ceisiadau – diwedd Medi 2014.

Panel penodi :- Richard Llwyd Jones, Geraint Elis a Phyllis Ellis.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Mae'r Cyngor angen Clerc/Swyddog Ariannol i ddechrau'r gwaith cyn gynted a bo modd.

Bydd y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.

Telir cyflog yn ôl 7.5awr yr wythnos. Cyfrennir at gostau ffôn, gwefan a defnydd o ystafell.

Dyddiad cau i'r ceisiadau 30ain o Fedi 2014.

Ceir manylion pellach oddi wrth y clerc presennol:

John B. Jones, Ceris, Deiniolen LL55 3LU

benmar402@btinternet.com

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanrug

Cyngor Cymuned Llanrug

Gwahoddir geisiadau am Glerc i'r Cyngor.

Am fwy o fanylion cysylltwch a'r Cadeirydd Mrs Meirwen Lloyd ar 01286-675359

(rhwng 5:00 a 9.00pm)

# ECO'r *Wyddfa*

## *O'r Cynghorau*

### *Cyngor Cymuned Llanberis*

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fawrth yr 20fed o Fai, 2014 am 7 yr hwyr.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Eurig Druce, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding (Cadeirydd), Derek Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Gwenda Roberts. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Barry Davies, Iola Owen, Dafydd Roberts.

YR YSGOL FEITHRIN:

Cafwyd cyflwyniad gan Lynn Parry sy'n gyfrifol am Ysgol Feithrin Llanberis a Nantperis. Mis ynghynt roedd swyddogion yr ysgol wedi gwneud cais am gymorth ariannol ar ôl colli cyfran o'u grant. Eglurwyd bod yr ysgol yn denu dros ugain o blant bach, ond nad oedd hi'n hawdd cael dau penllinyn ynghyd a bod pryder y byddai'n rhaid colli aelod o staff yn nhymor yr Hydref.

Yn dddiweddarach penderfynwyd gofyn am fwy o wybodaeth, am fantolen yn dangos cost misol ac incwm misol yr ysgol, ac ystyried y mater ar ôl derbyn y wybodaeth.

ETHOL CADEIRYDD AC IS GADEIRYDD:

Gyda'r Clerc yn cadeirio gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2014 – 2015. Etholwyd Bethan Holding yn Gadeirydd ac Iwan Harding yn Is gadeirydd. Ni chafwyd cynigion eraill.. Cytunwyd yn unfrydol i'w hethol ac aeth Bethan Holding i'r Gadair.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Defaid:

Adroddwyd i'r Clerc gael sawl sgwrs gyda ffermwr lleol. Mae'r Clerc i gynorthwyo gyda trafodaethau a Cyngor Gwynedd .

2. Palmentydd:

Adroddwyd i'r Clerc gyfarfod perchnogion y ddwy siop, V12 a Beics a chael trafodaeth adeiladol ynglŷn â'r arwyddion a oedd yn aml yn rhwystr ar y palmant. Eglurwyd fod y Cyngor yn deall yr angen i hysbysebu, ond bod yn rhaid gwneud hynny heb rwystro'r palmant a chreu trafferth i gerddwyr. cafwyd ymateb cadarnhaol gan y ddwy siop.

3. Biniau'r Fynwent:

Erbyn hyn mae dau fin sbwriel yn y Fynwent a chaeadau ar y ddau.

4. Meinciau Coffa:

Bellach mae'r ddwy fainc a dderbyniwyd er cof am bobl ifanc lleol a gollodd eu bywydau wedi eu gosod, y naill yn y Fynwent a'r llall yng Nghae Chwarae Min y Llyn. Dywedodd y Clerc ei fod yn anhapus fod y placiau ar y meinciau yn uniaith Saesneg, ac nad oedd yn siwr a ellid eu gwneud yn ddwyieithog. Bydd angen rhoi ystyriaeth pellach i'r mater.

Mae'r fainc a brynwyd i'w gosod dros y ffordd o'r fynedfa ar dir Maes Padarn i'w gosod yn y dyddiau nesaf.

5. Llwybr Stepiau:

Adroddwyd fod y wal beryglus wedi ei dymchwel a'i hail godi ar y llwybr y bu'n rhaid ei gau uwchben y stepiau ger Llainwen Uchaf. Hefyd roedd y wal a oedd yn cynnal y llwybr tu ôl i Resdai Eilian a oedd wedi syrthio mewn dau le hefyd wedi ei hail godi. Bellach mae'r ddau lwybr yn ddiogel ac mewn cyflwr boddhaol.

MATERION ERAILL:

1. Aber Afon Goch (Landing):

Roedd Derek Jones yn gresynu nad oedd y sbwriel a ddaeth i lawr gyda'r llifogydd byth wedi ei glirio.

2. Croesfan Gorsaf yr Wyddfa:

Derek Jones eto yn siomedig nad oedd yr ynys a'r llecyn croesi wedi ei adfer ar ôl y ras beics y llynedd. Mae amryw yn mynnu fod fan hyn yn beryclach heb le i oedi wrth groesi.

3. Adwy Ffordd Haearn:

Roedd Gwend Roberts yn awyddus gweld y tir yn cael ei blannu yn fuan, ond roedd pryder hefyd am y llechi, a oedd wedi eu gosod. Eu gweld braidd yn unffurf ac mewn llinell syth ac roedd pryder a fyddent yn cael eu dwyn, am nad oeddynt mewn concrit. Tybed a fyddai ychwanegu rhai atynt yn gwneud gwahaniaeth?

4.Lôn Fain, Nantperis:

Holwyd a fyddai modd cael llinell wen wrth adwy Ty Isa i ddiogelu trafnidiaeth ar Lôn Fain. Roedd llinell yno i atal ceir cyn ailwynebu'r ffordd.

5. Triathalon:

Nodwyd fod sawl car wedi ei ddirwyo am barcio ar hyd y ffordd osgoi yn ystod digwyddiad awyr agored poblogaidd yn ddiweddar. Roedd cwyno wedi bod yn y wasg a'r cyfryngau. Awgrymwyd cael llinellau melyn ar y ffordd osgoi, ond atgoffwyd yr aelodau fod arwyddion 'clirffordd' yn bodoli eisioes, eu pwrpas ydi gwahardd parcio. Yn ôl un aelod roedd meysydd parcio o dan y Castell a Gilfach Ddu ymhell o fod yn llawn ar y dydd. Efallai fod angen gwell cyfarwyddiadau ar gyfer parcio. Soniwyd fel yr oedd parcio ar y gwair a hefyd bod sbwriel dychrynllyd wedi ei adael ar ôl. Cwyn arall a gafwyd oedd yr arfer o roi enwau dieithr/Saesneg ar rannau o'r ardal, roedd rhywun wedi clywed son am rywle o'r enw 'Watford Gap' yn y chwarel. Dylai rhywun dynnu sylw at hyn ac yn sicr gwneud yn siwr nad ydyn nhw yn cael eu harfer mewn sylwebaeth gyhoeddus. [Tybed a oes rhywun a allai gorlannu'r ewau Saesneg a gweld oes na enwau Cymraeg yn bodoli?]

6. Cae Chwarae Min y Llyn:

Roedd awgrym wedi dod yn yr arolwg diogelwch blynyddol gan y cwmni yswiriant (Zurich) y dylid ystyried ffensio'r offer coed a rhaffau a gwneud yn siwr fod y giat bresennol yn cau yn iawn. Penderfynwyd nad oedd ffens yn angenrheidiol, ond fod y giat angen sylw. Dywedwyd nad oedd gwahaniaeth rhwng chwarae yn y fan honno a chwarae ar y glaswellt gerllaw, h.y. y tu allan i ffens y cae chwarae. Penderfynwyd i holi pam yr awgrymwyd ffensio'r offer coed a rhaffau.

Awgrymwyd hefyd rhoi arwydd gwybodaeth yn nodi enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog (y Cyngor hwn), lleoliad y ffôn agosaf a'r blwch cymorth cyntaf agosaf ynghŷd â lleoliad y toiled agosaf a chyfyngiadau oedran ar yr offer. Cytunwyd fod hynny yn ddiangen

GOHEBIAETH:

1. Pwyllgor Gefeillio Morbegno:

Penderfynwyd cynnig £500 tuag at groesawu ymwelwyr draw o effeill-dref y pentref, Morbegno yn yr Eidal. Gofynnwyd a oedd trefniadau arbennig ar y gweill ar gyfer yr ymwelaid.

2. AON UK Ltd:

Nodyn atgoffa ynglŷn ag yswiriant y Cyngor. Cytunwyd ar y pris a oedd ychydig yn is na'r llynedd.

CYNLLUNIO:

1. Cyngor Gwynedd:

• C14/0240/15/MG – cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi 11 o annedd preswyl fel a ganiatawyd o dan gyfeirnod C11/1103/15/AM – tir ger Ffordd Tŷ Du, Llanberis.

Awgrymwyd fod angen gwneud yn siwr nad oedd dŵr wyneb o'r anheddau yma yn ychwanegu at broblem llifogydd ar adegau gwlyb.

• C14/0432/15/YA – gosod dau gynhwysydd ar gyfer defnydd ynghlwm a chynnal coedlan – Coedlan Llyn Padarn, Ger A4086, Llanberis. Gwrthwynebu ar sail fod unrhyw adeiladau yn newid cymeriad y goedlan. Mynegwyd pryder y byddai'r adeiladau yn cael eu defnyddio i gysgu tros nos, ac y gallai ddennu plant a phobl ifanc yno.

WEDI EU GWRTHOD

2. APCE: Gwrthod:

• NP3/15/180C – gosod twnel polythen ffram ddur, Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa, Llanberis.

Y LLWYBRAU a'r FYNWENT:

Llwybrau:

1 Adroddwyd fod Pont ar y llwybr troed ger Manllwyd wedi ei hadnewyddu.

2 Cafwyd cwyn eto nad oedd nifer o glwydi ym Mharc Padarn yn cau fel y dylen nhw. (Adroddodd y Clerc ei fod eisioes wedi son wrth weithwyr y Parc.)

MATERION ARIANNOL:

Yn y Banc ar yr 28ain o Ebrill 2014 -

Cyfrif Cyfredol: £8,907.45 Cyfrif Cadw: £5,333.72

Gwariant y mis--£3,533.03

Derbyniadau y mis--£0.26

Bydd y cyfrifon blynyddol wedi eu harchwilio yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Mehefin.

ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL LLE BU CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR

1. APCE – Cyfarfod Cynghorau Cymuned

Roedd Olwen Gwilym wedi mynychu'r cyfarfod a chafwyd braslun o gynnwys y cyfarfod lle bu cryn sylw i'r drefn gynllunio.

# Cyfeillion Plas Pengwaith/Barbeciw







**Cyfeillion Plas Pengwaith** Enillydd y Bel Bonws am mis Mai oedd Mrs. Enid Jones. Gyda diolch hefyd i bawb fu'n cefnogi y barbeciw yn ystod y mis a aeth heibio. (Diolch i Eric Bayliss am y lluniau)





# Gardd Cae Heti.

Ar benwythnos gosod yr 'Eco', roedd prosiect garddio arbennig yn cael ei lansio yng ngardd Meddygfa Llanberis. Yno'n cyflwyno ar y Diwrnod Agored roedd Twm Elias, y naturiaethwr, Russel Jones y garddwr a Llion Williams.

Mae mudiad o'r enw NHS forest (http://nhsforest.org/) yn annog datblygu gerddi i bobl gael mwynhau manteision bod yn yr awyr agored a phrofi gwahanol weithgareddau a'r manteision i iechyd corfforol a iechyd meddwl a ddaw o hynny, ac yn helpu cymunedau ymgymeryd â nhw. A ninnau mewn ardal lle mae cymaint wrthi'n cerdded, rhedeg, a mwynhau chwaraeaon o bob math, efallai ei fod yn syniad anodd i'w ddeall ar y dechrau. Yn benodol mae'n ymwneud efo cynnwys pobl a rhoi mynediad i rai sydd yn llai tebygol o gymryd mantais o'r adnoddau fel arall yw'r nôd. Mae gwahanol ffynnonellau ariannol yn cyfrannu, - a'r ardd yn cael ei datblygu.Y syniad ydi bod unrhyw un yn cael cymryd rhan ond hefyd bydd rhai trefniadau ffurfiol.Bydd posib i Feddygfa Llanberis a meddygfeydd eraill gyfeirio cleifion i'r prosiect fel rhan o'r drefn"ymarfer corff ar bresgriptiwn" sydd wedi bodoli ers rhai blynyddoedd ond yn seiliedig ar ganolfannau hamdden hyd yn hyn. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn helpu gyda'r datblygiad.

Mae adran ffisiotherapi cymunedol ac adranau eraill yn cynnwys therapi ymarfer corff Betsi Cadwaladr yn rhan ohonno hefyd a bydd troseddwyr ifanc wrthi yn cynorthwyo.

Ar hyn o bryd mae'r gwaith wedi dechrau i wneud gwely perlysiau, i'w ddilyn gan roi mosaic ar y wal gan artist lleol yn gweithio efo ieuenctid Llanberis a bydd y prysurdeb yn ymestyn yn raddol dros y misoedd nesaf, gyda plannu coed, blodau a llysiau. Tynnu dwr i ddannedd defaid Llanberis tybed … …?

Mae Ambra Burls, sydd yn byw yn Llanberis, yn brysur yn trefnu gwahanol grantiau ar gyfer y prosiect. Yn ariannol, does a wnelo'r prosiect ddim oll i'w wneud a Meddygfa Llanberis, ond meddai'r Dr Robin Parry, "Roeddwn i yn arbennig yn hoffi'r syniad a gweld cyfle i wneud defnydd o'r safle, ac efallai y daw'n adnodd a werthfawrogir, ond amser a ddengys. Roedd rhywfaint o waith dwyn perswad ar rai, ac fe ddaeth y llifogydd ar draws y trefniadau ond mae pethau'n dechrau symud rwan."

## *Parhad* LLANBERIS

**Diolch** Hoffai Nan Owen, 8 Rhes Efrog, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

**Diolch** Yn dilyn llawdriniaeth, dymuna Ann Parry, Preswylfa, ddiolch am yr holl garedigrwydd gan y teulu, ffrindiau a chymdogion. Diolch arbennig i Morgan bach, Llainwen, am fynd â'r ci (Guto) am dro pob nos!

**Dymuniadau Da** Pob dymuniad da i Gwenno a Guto Llywelyn yn eu bywyd priodasol. Cariad mawr oddi wrth y teulu i gyd.

**Llongyfarchiadau Mawr** i Gwynfor Roberts, Penygraig, 8 Ffordd Tŷ Du, Llanberis ar gael ei ddewis i gynrychioli Prydain yn y tîm Para-Ddringo Cenedlaethol.

Bydd Gwynfor yn cystadlu yn nosbarth dringwyr gyda nam ar eu golwg. Fe fydd yn cystadlu ledled Ewrop dros yr haf, gan gynnwys Pencampwriaeth y Byd yn Sbaen. Mae ei ffrindiau a'i deulu yn dymuno'n dda iawn iddo.

**Cyfarchion** i Stella (Owen, Maes Padarn, gynt) sydd wedi bod yn yr ysbyty ger Castell Nedd, lle mae'n byw erbyn hyn. Fe'i trawyd yn wael yn ystod Chwefror eleni a'r gobaith yw y bydd yn dychwelyd i'w chartref yn y man. Y mae Stella yn derbyn yr Eco'n reolaidd ac yn falch o gael gwybod am hynt a helynt ei phentref genedigol a'r fro. Daeth Nansi ac Elwyn draw o Ganada i'w gweld yn fuan wedi iddi fod yn sâl, ac mae Nansi wedi dod yn ôl i wneud si?r y bydd yn ymdopi yn ei chartref wedi iddi ddod adref.

Cofion cynhesaf atat, Stella, a gobeithio y byddi'n ddigon da i ymweld â'r hen bentre yn y dyfodol agos!

**Arddangosfa gan Glyt-weithwyr Peris** yn Festri Capel Rehoboth, Nant Peris, rhwng 11yb a 2yp, ddydd Mercher, Gorffennaf y 30ain. Mynediad £1, fydd yn cynnwys paned o de. Elw'r diwrnod i fynd at achosion da, lleol

**Diolch** Dymuna Annie M. Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch am y cardiau a'r anrhegion, yr ymweliadau a'r galwadau ffôn. Diolch o galon i bawb.


ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr


## *Awdur yn Herio Hanes: Ni Laddwyd Llywelyn ein Llyw Olaf yng Nghilmeri*

Bradychwyd a lladdwyd Llywelyn ap Gruffudd dros 700 o flynyddoedd yn ôl. Mae cofeb yn ei enw i'w chanfod yng Nghilmeri, pentref sy'n enwog oherwydd ei fod yn agos i'r man lle bu farw'r tywysog, a chynhelir gwasanaeth yno i'w goffau yn flynyddol.

Serch hynny, yn ei nofel Saesneg newydd, Llywelyn, mae'r awdur, John Hughes, yn herio'r syniad confensiynol fod Llywelyn wedi'i ladd ger Cilmeri. Mae hefyd yn adrodd hynt a helynt pum mlynedd olaf bywyd Llywelyn trwy lygaid cymeriad benywaidd.

'Brut y Tywysogion yw un o'r ffynonellau pwysicaf am hanes Cymru, a dw i wedi fy ysbrydoli gan y traddodiad Cymraeg, yn hytrach na dibynnu ar air haneswyr Saesneg o'r cyfnod,' meddai'r awdur, a ymddeolodd fel prifathro ysgol Uwchradd Llanidloes wedi 26 mlynedd yn yr ysgol.

'Mae cerdd o'r 15fed ganrif yn awgrymu bod Llywelyn wedi'i ladd "mewn lle a elwir aber Edwy" ar ôl ymweld â dynes. Bu i hynny fy ysbrydoli i ysgrifennu am flynyddoedd olaf Llywelyn trwy lygaid merch, yn ogystal â herio'r syniad poblogaidd iddo gael ei ladd ger Cilmeri.

'Mae yna brinder enfawr o hanes menywod yn hanes Cymru, yn enwedig felly o'r oesoedd canol. Fedra i ddim yn fy mwy â derbyn bod hyn yn adlewyrchiad cywir o'r cyfnod – roedd gan fenywod ran bwysig i'w chwarae yn hanes Cymru, ond rywsut rydyn ni wedi colli hanes eu cyfraniad.

'Yn debyg i fy nofel gyntaf, Glyndŵr's Daughter, mae Llywelyn yn ceisio dangos dylanwad menywod ar hanes Cymru er gwaetha'r ffaith ein bod wedi colli cynifer o hanesion cymeriadau benywaidd cryf, dylanwadol a beiddgar yr oesoedd canol.'

Mae Llywelyn yn adrodd hanes Beth, cymeriad a anwyd i deulu bonheddig yn ne Powys. Mae'r ddynes ifanc yn gwneud argraff fawr ar Llywelyn, sydd lawer yn h?n na hi, ac mae'n cael ei gwahodd i fyw yn ei lys yng Ngarth Celyn, Gwynedd. Yno, mae ei chariad tuag ato yn datblygu ac yn aeddfedu, er gwaetha'r ffaith ei fod yn priodi Eleanor de Montfort. Mae Beth yn aros yn driw iddo hyd diwedd un.


DODREFN PERKINS
2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535
Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft
PRISIAU CYSTADLEUOL
Carpedi • Llenni a Lloriau Pren
Ffon- (01286) 676040

GERAINT OWEN CARPEDI
CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475

# Yfed a Gyrru'r Haf 2014

**Mae Ymgyrch Atal Yfed/Cymryd Cyffuriau a Gyrru Haf 2014 Cymru Gyfan, sy'n cael cefnogaeth y pedwar heddlu yng Nghymru wedi cychwyn.**

Dan arweinyddiaeth Heddlu De Cymru, fel rhan o'r ymgyrch fydd yn para drwy fis Mehefin, bydd heddluoedd yn cynyddu'r pwysau ac yn canolbwyntio ar y gyrwyr hynny sy'n yfed a gyrru neu sy'n gyrru dan ddylanwad cyffuriau.

Mi fydd yr heddlu yn stopio mwy o yrwyr er mwyn dal y rhai hynny sy'n torri'r gyfraith ac mi fydd swyddogion yn defnyddio'r ymgyrch i ledaenu'r neges ac addysgu gyrwyr.

Meddai'r Prif Arolygydd Darren Wareing o Uned Plismona'r Ffyrdd Heddlu Gogledd Cymru: 'Gyda thymor yr haf bron iawn yma, mi fydd mwy o bobl yn cael eu temtio i yfed alcohol, yn enwedig mewn barbeciw neu wrth yfed mewn gerddi tafarndai yn ystod y prynhawn, ac wedyn efallai yn gyrru heb feddwl am y canlyniadau.

'Mae Cwpan y Byd ymlaen ar hyn o bryd, ac mi fydd hyn o bosib yn achosi cynnydd yn y nifer o bobl fydd yn mynd i wylio'r gemau yn y dafarn.'

Fe ychwanegodd: 'Meddyliwch cyn i chi fynd allan, gwyliwch beth ydych yn yfed a chynlluniwch sut y byddwch yn mynd adref.'

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru strategaeth gadarn o safbwynt gorfodi'r gyfraith mewn perthynas â'r '5 angheuol' - y pum trosedd sy'n achosi'r nifer mwyaf o farwolaethau ac anafiadau ar y ffordd; yfed/cymryd cyffuriau a gyrru, gyrru peryglus gan gymryd risgiau diangen, goryrru, peidio â gwisgo gwregys diogelwch a defnyddio ffôn symudol wrth yrru.

Ychwanegodd Prif Arolygydd Wareing: 'Rydym yn benderfynol o helpu i leihau'r risg o farwolaethau ac anafiadau ar y ffyrdd drwy gynnal ymgyrchoedd gorfodi wedi'u targedu'n benodol tuag at grwpiau o bobl a lleoliadau risg uchel gan orfodi'r gyfraith mewn perthynas â'r '5 angheuol'.

'Os ydych chi'n yfed a gyrru, mae'n bosibl y byddwch nid yn unig yn dinistrio'ch bywyd eich hun, ond bywydau pobl eraill diniwed. Nid oes unrhyw esgus dros yfed a gyrru a gall y canlyniadau fod yn drychinebus.

'Nid yn unig y mae perygl y gallech ladd neu achosi niwed difrifol i chi eich hun neu rywun arall, ond bydd rhaid i chi fynd i'r llys a gallech wynebu dirwy, colli'ch trwydded neu dderbyn dedfryd o garchar. Bydd gennych gofnod troseddol ac fe allech golli'ch swydd.'

Gall unrhyw un sydd â gwybodaeth am unigolion y credir iddynt fod yn gyrru a hwythau dros y terfyn cyfreithiol gysylltu â'r heddlu ar 101 neu Taclo'r Tacle'n ddienw a chyfrinachol ar 0800 555 111.

Nodiadau:

- Yn ystod yr ymgyrch yn 2013 cafodd 8,281 o brofion anadl eu cymryd yng Ngogledd Cymru ac roedd 109 yn bositif.

Mae cosbau llym os ydych yn cael eich euogfarnu o drosedd yfed a gyrru gan gynnwys:

- Cyfnod o garchar o hyd at 6 mis
- Colli eich trwydded am o leiaf 12 mis
- Bydd gennych gofnod troseddol
- Gallwch gael dirwy o hyd at £5,000
- Bydd gennych ardystiad ar eich trwydded am 11 mlynedd

Os cewch eich euogfarnu o achosi marwolaeth drwy yrru'n esgeulus dan ddylanwad alcohol, rydych yn wynebu:

- Hyd at 14 mlynedd o garchar
- Dirwy ddigyfyngiad
- Cael eich gwahardd rhag gyrru am o leiaf dwy flynedd

Dyma ganlyniadau eraill y gallwch wynebu:

- Costau yswiriant eithriadol o uchel unwaith y cewch eich trwydded yn ôl
- Fe allech golli eich swydd
- Wynebu trafferthion wrth geisio ymweld â gwledydd megis America
- Y siom o gael cofnod troseddol
- Colli eich annibyniaeth



ORIEL CWM
CWM Y GLO
Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artisiaid lleol
Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs- (01286) 870882


POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

## Cymorth Canser Macmillan a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd i gynorthwyo cleifion canser

Mae Cymorth Canser Macmillan a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a'r Cynllun Cyfeirio Ymarfer Cenedlaethol i wella gofal i gleifion canser a'u teuluoedd yng Ngwynedd.

Mae model newydd o gefnogi cleifion canser yn cael ei dreialu yng Nghaernarfon gyda chyfres o glinigau Iechyd a Lles Macmillan yng Nghanolfan Hamdden Arfon i gynnig cefnogaeth a gwybodaeth i gleifion a'u teuluoedd.

Mae Cymorth Canser Macmillan wedi datblygu'r cysyniad o 'glinigau Iechyd a Lles' i gynnig gwell cefnogaeth i gleifion canser. Bydd y Clinigau Iechyd a Lles yn cynnig cefnogaeth a gwybodaeth gan weithwyr proffesiynol yn cynnwys dietegwyr, nyrsys, gwasanaethau seicoleg, a gweithwyr proffesiynol ymarfer corff a mynediad at wasanaethau lleol gan gynnwys cynghorwyr lles a budd-daliadau. Y syniad yw y bydd clinigau yn helpu cleifion i fod yn fwy gwybodus a hyderus ynglŷn â gofalu am eu hunain.

Meddai Joanne Garzoni , Arweinydd Iechyd a Lles Macmillan:

'Gweledigaeth y bwrdd iechyd yw y bydd pawb sydd wedi ffeindio allan bod ganddynt ganser ac yn byw gyda chanser yn cael mynediad i glinig Iechyd a Lles Macmillan arloesol er mwyn eu helpu i fyw bywyd mor normal a phosibl.

'Rydym yn falch iawn o fod yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a'r Cynllun Cyfeirio Ymarfer Cenedlaethol i wella iechyd a lles cleifion canser a'u teuluoedd yng Ngwynedd.'

Ychwanegodd y Cynghorydd Paul Thomas , Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer Gwynedd Iach:

Fel Cyngor, rydym yn awyddus iawn i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl sydd â chanser yn cael mynediad i amrywiaeth o wasanaethau sy'n eu helpu yn eu bywydau bob dydd . Mae'n wych gweld bod partneriaeth a ffurfiwyd gyda Chymorth Canser Macmillan i gefnogi cleifion canser yma yn y sir.'

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Emma Quake ar 01766 512711

# Un funud fach ...

## JOHANN WESTHAUSER

Chlywais i'r un gair am yr hanes nes i'r dyn gael ei achub o berfeddion yr ogof, 3,000 o droedfeddi dan y ddaear yn yr Almaen, yn agos i'r ffin ag Awstria. Roedd Johann Westhauser wedi bod yno am ddeuddeg diwrnod, wedi ei anafu'n ddrwg, cyn i'r timau achub lwyddo i'w godi nôl i olau dydd a'i gludo i'r ysbyty. Wn i ddim a fu'r stori ar y newyddion Prydeinig neu Gymreig yn ystod y deuddeg diwrnod ai peidio. Os bu, fe lwyddais i'w golli. Ond fe ddigwyddais glywed ar y radio adroddiad o'r funud y codwyd yr ogofâwr i'r lan. Roedd y cyffro a'r rhyddhad yn amlwg wrth i'r gohebydd egluro bod Johann Westhauser ar ei ffordd i'r ysbyty.

Aeth y gohebydd ymlaen i sôn am gost yr ymdrech i achub y dyn. Mae'n debyg nad oes yn siŵr iawn pam yr oedd yn yr ogof. Mae'n ogofâwr profiadol iawn. Ar brydiau, mae ei waith fel gwyddonydd yn mynd ag ef i'r ogofau, a dro arall mae'n mentro i ddyfnderoedd y ddaear o ran pleser. Os mai mentro i ogof Riesending o ran pleser a wnaeth y tro hwn, mae'n bosibl y bydd bil go fawr yn ei aros am gael ei achub! Ond go brin y gallai Johann Westhauser - na'r un person cyffredin arall - dalu'r fath fil. Wedi'r cwbl, roedd yno 728 o bobl, o bum gwlad wahanol, yn rhan o'r ymdrech i'w achub. Roedd yno bob math o gerbydau ac offer, a sut mae dechrau gosod pris ar ymdrechion dewr yr holl bobl a fentrodd eu bywydau wrth ddisgyn i berfeddion yr ogof i chwilio amdano a'i ddwyn yn ddiogel i'r lan.

Ac fel y gallech ddisgwyl, roedd y lluniau teledu a welais yn ddiweddarach yn dangos tyrfa'r achubwyr yn cymeradwyo'n wresog wrth i Johann Westhauser ddod i'r golwg o ddyfnder yr ogof. Y fath ymdrech; y fath drafferth; y fath gost; am fod un dyn mewn trybini. Y fath lawenydd; y fath ddathlu; am fod yr un dyn hwnnw wedi ei achub. Ac onid dyna'n union a ddywed yr Efengyl wrthym? Y fath ymdrech a thrafferth a chost a olygodd i Dduw roi ei Fab Iesu er ein mwyn. Nid un oedd ar goll ond dynoliaeth gyfan. Ac fe ddaeth Iesu i'r byd 'i geisio ac i gadw'r colledig'. Trwy ei weinidogaeth a'i farwolaeth a'i atgyfodiad mae wedi ein gwaredu oddi wrth bechod ac euogrwydd. A'r fath lawenydd; y fath ddathlu sydd yn y nefoedd, yn ôl Iesu ei hun, 'am un pechadur sy'n edifarhau'. A dyna ryfeddod yw hynny: mae'r ffaith fod un person yn edifarhau, bod un person yn credu yng Nghrist, yn achos llawenydd diderfyn yn y nefoedd. Ac am ei fod yn achos llawenydd yn y nefoedd, fe ddylai fod felly hefyd ar y ddaear. Bob tro y clywn ni am un person yn dod i gredu yng Nghrist, llawenhawn!

JOHN PRITCHARD


"FFONIWCH OS AM GAEL MWY O 'FISITORS' DROS YR HAF"

tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

DIONI





Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd





CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

# Ysgol Gymuned Penisarwaun



**Diwrnod Môr Ladron** Roedd 'na fwrlwm yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen dydd Mawrth Mai 20fed, gyda phawb wedi gwneud ymdrech arbennig i wisgo i fyny fel môr ladron fel rhan o'i thema "Y Môr". Roeddent wedi bod yn brysur yn gwneud bisgedi a chŵn poeth siâp cwch.

**Cystadleuaeth Criced** Bu rhai o ddisgyblion Bl. 3 i 6 yn cynrychioli'r ysgol yn y twrnamaint criced yng Nghanolfan Arfon dydd Iau Mehefin 19eg.

**Gŵyl Ynni Rheilffordd Llyn Padarn** Fel rhan o'r gwaith ar drydan y mae disgyblion Bl 3 i 6 wedi bod yn astudio, cafodd rhai ohonynt gyfle i fynychu'r Ŵyl Ynni dydd Iau Mehefin 19eg.

**Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen** Cynhelir Cymanfa Ganu i agor gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys nos Sul 29/6/14 am 6:30 o'r gloch. Bydd eitem gan blant yr Ysgol yn ystod y noson a gwerthfawrogwn gael eich cefnogaeth os gwelwch yn dda.

**Symud Dosbarthiadau** Bydd dydd Iau, Gorffennaf 3ydd, yn ddiwrnod prysur iawn yn yr Ysgol pan fydd pawb yn cael cyfle i symud i fyny i'r dosbarth y byddant ynddo ym mis Medi. Yn ogystal byddwn yn gwahodd y plant a fydd yn mynychu'r Ysgol am y tro cyntaf yn y dosbarth meithrin yma am y bore. Gobeithio y bydd pawb yn mwynhau'r profiadau yma yn fawr iawn.

**Ymweld â'r Ysgol Uwchradd** Bydd Bl 6 yn cael cyfle i fynd ar eu hail ymweliad ac Ysgol Brynrefail dydd Iau Gorffennaf 3ydd. Dymunwn y gorau i Elin, Brett, Ioan, Cai William a Llion pan fyddant yn cychwyn eu haddysg yno yn Mis Medi.

**Tripiau diwedd Tymor yr Haf** Dydd Gwener, Gorffennaf 4ydd, bydd Dosbarthiadau 3, 4, 5 a 6 yn cael mynd i Ganolfan Conwy yn Llanfairpwll ble byddant yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau gwahanol. Bydd Dosbarthiadau Derbyn a Bl 1 a 2 yn mynd i Sw Môr Môn dydd Mercher, Gorffennaf 9fed. Bydd cyfle iddynt dan oruchwyliaeth gymryd rhan mewn 'saffari' ar y traeth.

**Mabolgampau** Gobeithir cynnal y mabolgampau bnawn dydd Iau, Gorffennaf 10fed, am 1.30 o'r gloch os bydd y tywydd yn caniatau. Croeso cynnes i bawb ddod i gefnogi'r plant.

**Gwyliau Haf** Bydd yr Ysgol yn cau ddydd Gwener, Gorffennaf 18fed, ac yn ail agor i'r plant dydd Mawrth Medi 2ail.

**Cronfa Goffa R. H. Owen**

Gwahoddir Ceisiadau oddiwrth
Ddisgyblion Talgylch
Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug
am **GRANTIAU** o'r Gronfa uchod. Ceir gwybodaeth a ffurflenni cais, drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arno i'r ysgrifennydd-
**John H. Hughes**
**"Glyder" 8 Ffordd Capel Coch Llanberis**
**Gwynedd LL55 4SH**
**Ffôn-(01286) 871562**

Y CEISIADAU i gyrraedd yr Ysgrifennydd
erbyn **MEDI 30ain. 2014**
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law
ar ôl y dyddiad cau penodedig

**YSWIRIANT FUW**

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Hoffech chi hybu
**BWYD LLEOL**
**BUSNESAU CEFN GWLAD**
**ECONOMI WLEDIG**

**Trwy gefnogi Yswiriant FUW?**
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

**Dafydd P. Jones 01492 642683**
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol. Yng nghyd- destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

**Llongyfarchiadau** i Mari Deiniol 12 Bryn Eglwys ar ennill gradd meistr MPhil, mewn ysgrifennu creadigol ym Mhrifysgol Caerdydd. Da iawn ti a dymuniadau gorau gan y teulu i gyd.

**Cronfa'r Pensiynwyr** Enillydd y bêl bonws mis Mai oedd Mrs Janet Ash gyda rhif 4 Llongyfarchiadau!

**Ysgol Sul Bosra** Cynhaliwyd Cymanfa'r Methodistiaid Cylch Arfon bnawn Sul, Mehefin 22ain, am 2.00 o'r gloch yng Nghapel Ebeneser Caernarfon.

Llongyferchir aelodau Ysgol Sul Bosra am gasglu £130.70 tuag at y Genhadaeth Dramor – swm sylweddol yn wir. Da iawn chi blant a diolch i bawb a'u cefnogodd.

Nos Wener, Mehefin 27ain cynhaliwyd noson 'Cwpan yr Ysgol Sul' yng ngofal Cynllun EFE. Ar fuarth Ysgol Llanrug, mwynhawyd Twrnamaint Pêl-rwyd 5 bob ochr i enethod blwyddyn 3-6, ac ar gae chwarae Ysgol Llanrug trefnwyd Twrnamaint Pêl-droed 5 bob ochr. Dymunir diolch i Andrew Settatree ac aelodau Cynllun EFE am noson gymdeithasol ahwyliog dros ben. Bydd yr Ysgol Sul yn cael seibiant o Orffennaf 13 hyd y Sul wedi i'r ysgol ailgychwyn, sef Medi 7fed.

Gwyliau hapus a diogel i chwi i gyd.

**Eisteddfod Bentref – Gorffennaf 11** Y mae'r ymarferion wedi cychwyn bob nos Iau yn y Neuadd Gymuned o 6.00-6.45 i'r oedran Cynradd ac o 6.45-7.15 i'r Uwchradd a rhai dros 18 oed.

Y beirniaid eleni yw Llefaru – Mari Gwilym; Cerdd – Elfed Morris; Gwaith Celf ac Arlunio – Bethan Richardson; Coginio – Janice Jones; Llenyddiaeth – Arwel Jones. Llywydd yr Eisteddfod yw Cenin Eifion.

Cystadlaethau Cartref i gyrraedd yr ysgrifennydd,sef Ann Ifans, Sycharth, 5 Bryn Eglwys, erbyn Mehefin 24ain – 30ain. Gwaith Ffotograffiaeth, Cyfrifiadurol, Arlunio a Gwaith Llaw a Choginio i'r Neuadd Gymuned erbyn hanner dydd, dydd Iau, Gorffennaf 10fed.

Y mae cystadlaethau oedran Meithrin i Blwyddyn 6 yn gyfyngedig i blant yr Ysgol Gymuned a phlant eraill y pentref ond mae cystadlaethau o Flwyddyn 7 i fyny yn agored i unrhyw un sy'n dymuno cystadlu a chefnogi'r Eisteddfod. Y mae'r rhelyw o'r cystadlaethau yn Hunan Ddewisiad ac mae'r gwobrau yn hael! Mae testunau ar gael gan Ann Ifans (872407)

**Pwyllgor Neuadd** Nos Fawrth, Mai 21ain, cafwyd noson o 'Firi Mai' llwyddiannus dros ben gyda nifer wedi dod i gefnogi ar noson hynod o braf. Bu'r Rasys Rhedeg i'r gwahanol oedrannau yn hynod boblogaidd, o'r oedran Cyfnod Sylfaen, Bl. 1 a 2, Bl. 3 a 4 a Bl. 5 a 6, gyda enillwyr y ras yn derbyn medal.

**Clwb Cant** Enillwyr Clwb Cant Mehefin yw Mrs Blodwen Mowll, Bryntirion ac Elen George, Sŵn yr Engan, Brynrefail.

Enillwyr mis Gorffennaf yw Iwan Parry, Penrhosgarnedd a Delyth Williams.

Dymunir diolch i bawb a gefnogodd ein gweithgareddau hyd yma. Gobeithir trefnu gweithgareddau pellach o Fedi hyd y Nadolig.

**Ymchwil y Galon** Dymunir diolch i bawb am eu haelioni i'r casgliad o ddrws i ddrws er budd Ymchwil y Galon.

## Carnifal Penisarwaun

*Mehefin 29-Gorffennaf 5*

Nos Sul, Meh 29
Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen am 6.30
Nos Lun, Meh 30
Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30
Nos Fawrth, Gorff 1
Gyrfa Chwist yn Neuad yr Eglwys am 7.30
Nos Fercher, Gorff 1
Mabolgampau ar gae yr Ysgol Gymuned am 6.00
Nos Iau, Gorff 3
Disgo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30
Nos Wener, Gorff 4
Helfa Drysor i gychwyn o Neuadd yr Eglwys o 6.00-6.45 gan orffen mewn gwesty am fwyd.
Dydd Sadwrn, Gorff 5
Y Carnifal – yr orymdaith i gychwyn o'r Cartref Nyrsio am 1.30. Bydd stondinau, castell neidio, gemau, raffl, hufen iâ a sêl cist car ar y cae.
Mynediad: £1 i oedolion, 50c i blant. Am ddim i bawb mewn gwisg ffansi. Dewch yn llu.









**Clwb 300** Enillwyr y Clwb am fis Mai oedd: £30: Mr W.M. Catt; £20: Mr D.G. Davies, Bryn Teg; £10: Mr M. Beech, Bryn Arfon.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd** Llongyfarchiadau mawr i Huw Emrys, Brynrefail, sy'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Brynrefail, ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Chwythbrennau, blynyddoedd 7, 8 a 9, ac hefyd roedd yn aelod o grŵp o dri ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth Ensemble Offerynnol dan 15 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i'r rhai hynny o'r pentref a oedd yn aelodau o Gôr a Cherddorfa ysgol Brynrefail a daeth i'r brig yn eu cystadlaethau.

**Babanod Bach Newydd** Llongyfarchiadau i Elen a Dylan, 6 Ael y Bryn, ar enedigaeth merch fach, Leah, chwaer i Dion ac Erin a wyres fach i Elwyn Jones ac Eirian.

**Llongyfarchiadau** hefyd i Alison a Steven, Tŷ'r Efail, ar enedigaeth eu hail ferch. Ganwyd Catrin, chwaer fach i Lois ac wyres i Rosalind ac Emrys, Bryn Môr (Yr Efail).

**Daeth** Heulwen ac Alffi, Hafod y Rhug yn nain a thaid i Noah, mab eu merch, Sioned a'i phriod Jamie. Llongyfarchiadau i chwithau. Un bach arall i ddod draw i'r Hafod at nain a taid.

**Dathlu Pen-blwydd** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Raymond Parry, Ffridd Felan, ar gyrraedd ei bedwar ugain mlwydd oed. Dipyn o rif hyd yn oed i gyn-athro Mathemateg allu rhesymu ac egluro i ble'r aeth yr holl flynyddoedd.

Dathlu cyrraedd ei un ar hugain oed y bu Jason Lee, Stad Dôl Erddi. Llongyfarchiadau mawr iti oddi wrth Nain a'r teulu oll a dy ffrindiau yn y Waun.

Bydd pump o bobl ifanc y pentref yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed yn ystod y ddau fis nesaf. Dymunwn yn dda i Catrin, 5 Stad Ael-y-bryn; Yasmin, Sunny Side; Erin Haf, Stad Dôl Erddi; Luc, Tan-y-foel a Dylan, Manchester House. Mwynhewch eich diwrnod arbennig a phob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

**Cyfarchion Pen-blwydd a Dymuniadau Da**

**Llongyfarchiadau** i Mrs Lowri Dunn a fu'n dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati ar yr achlysur arbennig ac hefyd i'w chroesawu adref o'r ysbyty wedi iddi dreulio cyfnod yno. Hyderwn yn fawr y byddwch yn dal i wella a chryfhau.

**Dymuna** Mrs Dunn ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r blodau a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac hefyd ar achlysur ei phen-blwydd.

**Anfonwn** ein cofion hefyd at Mrs Mair Williams, Fferm Bod Hyfryd, sydd wedi anafu ei hysgwydd drwy anffawd yn ei chartref. Dymunwn wellhad buan i chithau.

**Pen-blwydd Priodas** Anfonwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau da i Lesley ac Ian Wiliamns, Stad Tŷ Hen gan eu bod yn dathlu pum mlynedd ar hugain o fywyd priodasol. Pob hwyl ichi ar ddydd eich Priodas Arian.

**Diolch** Dymuna Eleri a Jason Anderson, Fron Deg, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob cydymdeimlad a amlygwyd iddynt drwy neges ac ymweliad. Bu'n gysur iddynt yn eu profedigaeth o golli tad Eleri.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â Jeff a Liz Daniels a'r hogiau, Stad Tŷ Hen, yn eu profedigaeth o golli chwaer Jeff a modryb hoff i'r hogiau.

**Yr Eco** Dydd dim rhifyn o'r Eco ddiwedd mis Gorffennaf. Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg ddiwedd mis Awst. Cofiwch ddod â'r holl newyddion a'r digwyddiadau pwysig ar gyfer y rhifyn i mi drwy'r drws neu dros y ffôn. Diolch yn fawr. Mwynhewch wyliau yr haf.

**Gwasanaethau Eglwys y Waun ym mis Gorffennaf**1: Dr Tudor Ellis
6: Mr Robert M. Morris
13: Gweinidog
20: Parch Ieuan Lloyd
27: Gweinidog
Mis Awst: Uno yn Seilo am y pum Sul.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

grid76
dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics

• Cardiau Busnes
• Arwyddion
• Graffeg ar Gerbydau
• Gwefanau a mwy...
Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service


Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk




# Ar ben arall i'r lein

Yn dilyn y newyddion da fis yn ôl, siom braidd yw dweud fod dim byd o gwbwl i weld yn symud tuag at wella'r dyfroedd. Cefais un awgrym na fydd canlyniadau'r ail ymchwyliad Cyfoeth Naturiol Cymru i helyntion Padarn, yn dilyn gorchymun yr Uchel Lys yn gweld goleu dydd tan Tachwedd eleni. Ond ni fu Dŵr Cymru eisiau cyhyd i gysylltu a'n cyfreithiwr gyda bygythiadau fod y cwmni yn cysidro dod a achos o enllib yn ein herbyn am ddweud ei bod yn gyfrifol am lygru dyfroedd Cymru. Yr ateb a roddwyd oedd rhoi rhestr o achosion sydd wedi bod yn ei herbyn yn ymwneud a arllwys carthion yn anghyfreithlon, cawn weld be a ddaw.

Adroddais ein bod wedi cyfarfod a Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy, Clwyd a Gwynedd a Cyngor Gwynedd ar 3 Mawrth i drafod awgrymiadau ar sut i wella pysgodfeydd dalgylch Padarn/ Seiont. Oedd mi oedd llawer o siarad a cytuno ar y ffordd ymlaen, ond dyma ni heddiw dros dri mis i lawr y ffordd a be sydd wedi ei wneud - dim. Fy nhyb i yw na fydd dim chwaith yn cael ei wneud hyd nes i ganlyniad ymchwiliad CNC weld goleu dydd. Mae gennyf amhaeon cryf bydd y pethau pwysig wedi ei sgubo dan y carped unwaith eto. Materion fel y difrod sydd wedi eu wneud i'r afonydd magu drwy adeiladu gorsaf Hydro Dinorwig, afonydd fel y Bala, Peris, Hwch a'r Dudodyn yn ogystal a cholli Llyn Peris yn gyfan fel magwrfa i'r pysgod bach. Dyma yn ogystal a difaterwch Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am y sefyllfa bresenol. Os caiff hyn ei gynnwys yn y penderfyniadau yna bydd yn bleser mawr gennyf ymddihuro'n llwyr.

Dwi'n ffodus dros ben fy mod wedi ymddeol y dyddiau yma ac yn gallu wir mwynhau yr heulwen sydd wedi bod gwenu arnom er dyddiau lawer, mae gen i liw haul am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Ond dim cael lliw haul oedd y bwriad, 'sgota a mwy o sgota oedd ar yr agenda, ond gan fy mod wedi torri fy nhroed ers mis Chwefror nid oedd yn bosib ymweld ar glannau, a pan daflwyd y plastar ar baglau fe ddaeth yr






haul a dim glaw, felly dim dŵr a dim cyfle i 'sgota, wel dyna chi rwdlan y de! Fodd bynnag mae digonedd o blu wedi ei clymu a'r tŷ gwydyr, y tomatos a'r mefus werth chweil, dwi'n tipyn o foi wedi mynd ar y brwsh paent hefyd.

Un o fy nioddordebau pennaf , heblaw pysgota ydi hanes a gwnes addewid os cael y cyfle i'm ymweld a Skara Bray, Maeshow a Cylch Brodgar yn yr Orkneys. Daeth y cyfle ac bum yno rhyw fis yn ôl, tipyn o daith a 'roedd yn bosib cymysgu tipyn a'r hanes pysgota hefyd, sef drwy ymweld a rhai o lecynnau pysgota enwocaf yr Alban. Beth a fy synnodd yn fawr oedd pa mor ddibyniadwy oedd pawb a'i gilydd. Gêr pysgota yn cael ei adael dros nos ar y cychod, genweiri yn cael ei gadael mewn cytiau ar lannau'r afonydd a neb yn colli dim. Hyfryd os y buasai hyn yn bosib yn y gornel fach o'r yma wlad, ond y tristwch yw os buasai genwair yn cael gadail yn un o'r cychod ym Mhenllyn dros nos - wel ni fuasai yno yn y bore.

Oedd mi oedd yn siwrna werth chweil, ond yn yr Orkneys hefyd mae problemau mawr gyda'r diriwiad mawr yn y pysgodfeydd, hyn yn codi drwy effaith ffermio eogiaid mewn tanciau o rwydi mawr yn y môr. Carthion eogiad a chemegau sy'n cael ei defnyddio i gael gwared a'r llau môr yw'r broblem yno a dim carthion dynol. Felly cofiwch pan yn mwynhau tipyn o eog o'r archfarchnad, ei fod yntau hefyd yn cyfrifol am lygredd enfawr. Ond ddigon pell i ffwrdd i fod allan o olwg mwyaf tebyg

Cefias glywed fod Richard Jones, Harbwr Feistr Harbwr Caernarfon wedi gadel y swydd, bydd hyn yn golled fawr i pawb sydd a diddordeb yn y Fenai ac Aber y Seiont. 'Roedd pob amser yn gefnogol iawn at waith y gymdeithas. Dymunwn fel aelodau y goreu iti Richard at y dyfodol, a diolch am dy gefnogaeth dros y blynyddoedd.

Cyn cilio diolchaf yn fawr i olygyddion yr Eco am y geiriau caredig yn rhifyn Mehefin, yn ogystal a'r casgliad englynion gan Closs. Diolch yn fawr i chwi oll am eich cefnogaeth ac yn enwedig am dynnu sylw at be sy'n mynd ymlaen.

Huw Price Hughes.

# *Pencampwyr Snwcer.*



Os mai tim Pwl Penbont enillodd bopeth yn ystod y tymor a aeth heibio, doedd hogia snwcer y pentref ddim ymhell o'u hol. Tim Snwcer Llanrug oedd Pencampwyr Cynghrair Bangor a'r Cylch. Nhw hefyd enillodd Gwpan y Gynghrair a chyrraedd ffeinal Cwpan Pattison. Aled Roberts enillodd y tlws am Berfformiad Gorau'r Tymor yn y Gynghrair, a Peter Roscoe oedd Pencampwr yr Unigolion. Aelodau eraill y tim yw Danny Griffiths, Owen Bracegirdle, Wil Evans a Meurig Parry. Yn y llun gwelir y tim yn noson wobrwyo y gynghrair.

## Merched y Wawr

Ar nos Fawrth, 10ed Mehefin, aeth llond bws o aelodau cangen Llanrug o Ferched y Wawr i Ganolfan Fwyd Bodnant. Roedd golygfa werth i'w gweld wrth ddisgyn o'r bws gydag adeiladau'r Ganolfan wedi eu lleoli mewn ardal wledig braf. Aeth pawb yn syth i'r ystafell fwyta i wrando ac edrych ar gyflwyniad Powerpoint ar y Ganolfan oedd yn dangos fel yr oedd hen adeiladau amaethyddol wedi eu haddasu dros gyfnod o 7 mlynedd i greu'r cyfleusterau ysblennydd presennol: y siop sy'n gwerthu gwin, siop y cigydd, y becws, y siop fferm, y llaethdy sy'n cynhyrchu menyn, hufen iâ a chaws enwog Aberwen ac Abergoch, cadw gwenyn a chynhyrchu mêl, yr ysgol goginio, yr ystafell de, lleoliad delfrydol i briodasau a phartïon a'r t? fferm lle mae lle i 9 gysgu. Bu cyfle wedyn i fynd i'r Ysgol Goginio a chael dysgu am yr amrywiol gyrsiau coginio sydd ar gael ac yna i'r Siop Fferm i weld amrywiaeth eang o gynnyrch, megis cwrw lleol, diodydd meddal diddorol, sawl math o olew, pasteiod, llysiau, a.y.y.b. 'Roedd pob dim yn werth i'w weld a bu trafodaeth fywiog iawn ar yr holl arlwy wrth i bawb ymlwybro'n ôl i'r ystafell fwyta i fwynhau pryd o fwyd blasus tri chwrs a sgwrsio di ben draw.

Bu Nan, y Llywydd, yn ddeheuig iawn yn cyflwyno nifer o gyhoeddiadau. Llongyfarchodd Meirwen ar ddod yn Llywydd Pwyllgor y Pum Rhanbarth, estynnodd ddymuniadau am adferiad buan i Gwyndaf, gwr Mair, yn dilyn triniaeth lawfeddygol, cyfleu diolchiadau Margaret Parry i'r gefnogaeth i fore coffi'r Is-bwyllgor Anabl, cydymdeimlwyd â Margaret Jones ar farwolaeth ei chwaer, mynegwyd cefnogaeth i Ann a'r teulu sydd mewn sefyllfa anodd a dyrys. Ymhellach, roedd Merched y Wawr yn croesawu aelodau i nifer o ddigwyddiadau yn ystod yr haf: Y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd (21/7/14 – 24/7/14), Eisteddfod Genedlaethol Llanelli gyda Tegwen, y Cyfarwyddwr, yn cael ei hurddo i'r Orsedd am 11 ar fore'r dydd Gwener a derbyniad am 4 o'r gloch yn y Babell Lên, archebu nwyddau 'r?an a rhaid rhoi enwau ar gyfer Penwythnos Preswyl Llanbedr Pont Steffan (5/9/14 – 7/9/14) erbyn 1af Awst. Diolchodd i Olwen a Linda am eu holl waith yn trefnu'r wibdaith a'r holl weithgareddau eraill yn ystod y flwyddyn ac yn ei thro diolchodd Olwen i Nan am ei gwaith caled a'i chefnogaeth.

Dychwelodd pawb adref gydag atgofion melys am y wibdaith. Dyma gyfarfod olaf tymor 2013 – 2014; bydd y gangen yn ail ymgynnull ym mis Medi i gychwyn blwyddyn arall o weithgareddau amrywiol a bydd croeso cynnes i aelodau newydd.

**Angen Rheolwyr** Mae Clwb Pêl-droed Llewod Llanrug yn chwilio am reolwyr i redeg timau pêl-droed i enethod rhwng yr oedran 7-16 o fis Medi ymlaen. Fe ddarperir hyfforddiant ar gyfer hyn.
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Mrs Donna Roberts Jones ar 07966 805229.

**Marwolaethau** Yn sydyn iawn bu farw Mr John Ames, Hafan Elan yn 75 mlwydd oed. Bu yn byw yn hapus yn ei gartref yma ymysg llawer o ffrindiau ac roedd yn gefnogol iawn i weithgareddau y Ganolfan. Bydd colled fawr i bawb yno ynghyd, wrth gwrs, a'i chwaer Kathleen Jones, Kenard, Ffordd Glanffynnon a'i nithoedd a'i nai, a Margaret, Bro Rhyddallt, a'r gofalwyr a fu yn gefn mawr iddo.
Cydymdeimlwn â chi fel teulu a ffrindiau.
Yn 78 mlwydd oed bu farw Mrs Gracie Thomas, Gwenallt, Rhes Rhyddallt. Gweddw y diweddar Hugh a mam ffyddlon i Gwyneth, Ann a Gwynfor a nain annwyl ei wyrion a'i wyresau.
Roedd yn chwaer annwyl i Margaret a Jim ac i Tom a'u teuluoedd ac anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf atoch fel teulu.

**Genedigaeth** Llongyfarchiadau mawr i Arwyn a Bethan Roberts, Stad Minffordd, ar enedigaeth mab, Elis, ar Fehefin 10fed. Brawd bach arbennig iawn i Celt a Siôn.
Llongyfarchiadau hefyd i Taid a Nain, Chris ac Eirian, ac i Llion a Berwyn ar ddod yn 'wncwl' iddo.

**Gwyliau Haf bendigedig** i bawb. Bydd yr Eco allan eto ddiwedd Awst.

Annwyl Olygydd
Llythyr gan Nel Jones ac Elin Jones
ar ran plant Stad Minffordd a Ffordd Glanffynnon
Mae plant Minffordd yn protestio yn erbyn y syniad o dorri y drain i adeiladu tai ychwanegol ar Stad Minffordd.
Dyn yn gweithio i gwmni adeiladu sydd yno ac mae wedi torri'r gyfraith yn barod trwy yrru Jac Codi Baw ar hyd llwybr cyhoeddus. Mae wedi torri'r drain yn barod ac nid yw'r plant yn gallu chwarae yno r?an, heb sôn am y bywyd gwyllt. Mae yna fwy na 30 o blant yn byw yn yr ardal yma.
Rydym yn deall fod y Cyngor yn ymweld â'r safle ar 16 o Fehefin.
Mae pryder na fydd y plant yn gallu cerdded i'r ysgol ar hyd y llwybr ac y bydd yn anodd i geir fynd i mewn ac allan o'r tai.
Dau arall sy'n bryderus yw Mali a Llewelyn Brooks, ynghyd â'u rhieni ar Stad Minffordd
Diolch yn fawr
Nel ac Elin

**Y Sefydliad Coffa** Enillwyr Clwb Cant Mis Mai: 1.Bethan Roberts, Glanfa; 2. M. Jones, 21 Rhos Rug; 3. Mrs E. Rowlands, Llys Forgan.
Plaid Cymru Enillwyr Clwb cant Mis Mehefin: 1. Deiniol Evans; 2. Enid Williams.

**Arddangosfa gan Glyt-weithwyr Peris** yn Festri Capel Rehoboth, Nant Peris, rhwng 11yb a 2yp, ddydd Mercher, Gorffennaf y 30ain. Mynediad £1, fydd yn cynnwys paned o de. Elw'r diwrnod i fynd at achosion da, lleol.



**Llongyfarchiadau** i Fand Ieuenctid Llanrug ar eu llwyddiant mewn ctstadleuaeth ddiweddar yn y Drenewydd.

**Diolch.**

Dymuna teulu y ddiweddar Gracie Thomas, Gwenallt, Pontrhythallt, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth ddiweddar.

**Dosbarthu'r 'Eco'.**

Mae Rhian Jacques yn ymddeol o'i gwaith yn dosbarthu'r 'Eco' yng Nglanffynnon. Bu wrth y gwaith ers blynyddoedd, a diolchwn iddi am ei hymroddiad a'i dyfalbarhad gyda'r gwaith. Tra'n ffarwelio a Rhian, croesawn Donna Roberts-Jones, sydd wedi gwirfoddoli i wneud y gwaith. Da gweld aelodau ifanc o'r gymuned yn cynnig eu hunain i ysgwyddo rhan o faich cynnal yr 'Eco'.

## Elw at Ambiwlans Awyr Cymru

*Noson Ffeirio Dillad*

*(plant, oedolion, sgarffiau, hetiau, gemwaith,ayyb)*

**Nos Fercher, 16 Gorffennaf**

**yn ysgol Gynradd Llanrug am 7 y.h.**

Pawb yn talu £1 am bob eitem a roddir i'w gwerthu.

Am bob eitem fe gant ddewis eitem arall.

Eitem am Eitem

Mynediad £1 yn cynnwys paned theisen.

Bydd raffl ar werth hefyd.

# Ysgol Llanrug

**Dosbarth meithrin a derbyn**

Bu hi'n fis prysur gydag ymweliad gan P.C Meirion a ddangosodd y gwahanol hetiau sydd gan yr heddlu. Daeth y deintydd i'n gweld hefyd a cafodd y plant i gyd gyfle i frwsio dannedd Celfin y ceffyl. Cafodd y plant orffen y thema bwyd gydag ymweliad i'r parc a chael picnic blasus.









## RHEDEG MYNYDD

Tywydd anwadal, gan gynnwys storm o fellt a tharannau fu'n her i redwyr y fro dros y mis diwethaf. Mae Cyfres Rasys Nos Fawrth a noddir gan gwmni Jo Brown, Llanberis, yn tynnu tua'r diwedd. Bu Ras y Gogarth yn dipyn o draed moch, gan i nifer o'r rhedwyr ddilyn y llwybr anghywir. Maggie Oliver, Dinorwig oedd yr unig enillydd o'r fro yn yr adran i ferched dros 60 oed. Roedd pethau'n llawer gwell ym Mhenmaenmawr, a'r unig broblem yno ar noson hyfryd o haf oedd y piwiaid! Daeth Paul Jenkinson, Waunfawr yn gyntaf dros 40 oed a Dafydd Thomas, Llanrug yn gyntaf dros 60 oed. Yr unig ferch i lwyddo yno oedd Stel Farrar, Dinorwig a ddaeth yn gyntaf yn yr adran i ferched dros 50 oed. Yn dilyn diwrnod o gawodydd trymion bob yn ail a haul tanbaid, daeth mwy o lwyddiannau yn RasY Garn, Rhyd-ddu. Daeth Paul Jenkinson, Waunfawr yn gyntaf dros 40 oed, a'i ferch, Bronwen yn ferch gyntaf a chyntaf dan 18oed. Stel Farrar, Dinorwig oedd y ferch gyntaf dros 50 oed, gyda Dafydd Thomas, Llanrug a Maggie Oliver, Dinorwig yn gyntaf yn yr adrannau dros 60 oed. Mae dwy ras yn aros i ddiweddu'r gyfres – Aber a Moel Eilio. Bydd yn rhaid disgwyl tan Eco Medi i gael gwybodaeth am holl enillwyr y fro yn y gyfres.

Er nad oedd y canlyniadau llawn wedi eu cadarnhau, mae'n ymddangos fod Ras 1,000 metrau Eryri wedi bod yn llwyddiant er gwaethaf y stormydd yn ystod y bore, a'r ffaith fod y copaon i gyd dan haen drwchus o niwl. Yn y ras llawn, daeth Stel Farrar yn ferch gyntaf dros 50 oed, ac yn y Ras Fer, Hugh O'Donnell (Llanberis gynt) oedd yr enillydd.

Ar yr un diwrnod roedd Matthew Roberts, Llanberis wedi teithio i Ennerdale yn Ardal y Llynnoedd, ac mewn ras wedi ei chwtogi oherwydd y tywydd (dim ond 22 o filltiroedd fu'n rhaid iddo redeg!) daeth yn wythfed allan o dri chant o redwyr mewn ras pencampwriaeth Prydain.

Wythnos yn ddiweddarach, a Matthew oedd yn trefnu Ras Pedol Pennant o Gwm Pennant, ble roedd 80 o redwyr yn herio Moel Hebog a Chrib Nantlle. Mae'r ras hon yn sicr o gynyddu mewn poblogrwydd dros y blynyddoedd nesaf, a siawns na chaiff ei chynnwys yn rhaglen pencampwriaethau Prydain yn fuan. Gwnaeth Noel Craine o Lanberis yn arbennig o dda yn y ras, gan ennill yr adran i ddynion dros 50 oed.

Mae rhagolygon y mwyafrif o redwyr mynydd yn troi tua'r Wyddfa ym mis Gorffennaf, ac unig ras bencampwriaeth Prydain a gynhelir yng Nghymru eleni, sef Ras Maesgwm ddiwedd Awst. Hefyd yn ystod mis Awst bydd un ras leol arall, sef Ras Elidir o bentref Nant Peris. Mwy am y canlyniadau – a'r llwyddiannau gobeithio – yn rhifyn Medi.

# Pedwar diwrnod o haul?

Wel, mae'r tymor criced wedi dod. Mae'r batwyr wrth ei bodd gyda'r llain yn caledu a'r bêl yn dod ymlaen i'r bat yn gyflymach. Mae'r fformat newydd 50 pelawd y batiad yn Uwch Adran y Gogledd i weld yn plesio ac yn sicr mae cynnydd yn y nifer o rediadau, a sawl gêm agos iawn yn barod. Rwyn sylwi fod mwy yn cael eu denu i wylio hefyd. Dewch draw i Dŷ Newydd am bnawn braf o wylio.

Gobeithio y deil y tywydd ar gyfer ymweliad blynyddol Morgannwg i'r gogledd. Yn anffodus dim ond gêm bedwar diwrnod yw'r arlwy eleni. Mae'r tueddiad i chwarae'r gemau undydd ganol yr wythnos, a nos Wener yn noson boblogaidd ar gyfer y 20/20.

Mae Morgannwg ar rediad da yn y gystadleuaeth 20/20 eleni. Trueni nad yw S4C yn dangos y gemau.

Bydd y gem ar faes Bae Colwyn ar Orffennaf 6/7/8/9 gyda phob dydd yn dechrau am 11a.m.

Y gwrthwynebwyr yw Surrey, a gobeithio bydd y 'deryn drycin' Kevin Peterson ar gael. Mae ambell i seren arall yn nhim Surrey. Ar hyn o bryd mae Morgannwg yn drydydd yn yr ail adran, ac yn ymdrechu'n galed am ddyrchafiad. Dros y blynyddoedd llain sy'n ffafrio'r batwyr geir ym Mae Colwyn. Bydd angen cryn ddycnwch ar fois Jim Allenby i saernio buddugoliaeth. Cawn weld.



# Cap Cymru i Lois

Dyma lun o Lois Regan yn derbyn ei chap Cymru, carfan dan 16 yn nhymor 2012. Fel da chi'n gweld, Chris Coleman a Jane Ludlow, cyn-gapten a chwaraewr tîm Merched Cymru ac Arsenal, oedd yn cyflwyno'r cap yng ngwesty St Pierre Mariot yn Chepstow ar ddydd Sadwrn, 24 Mai.

Dim ond un flwyddyn fu hi hefo'r garfan dan 16 cyn symud fyny i chwarae dan oedran 17 yn nhymor 2013 a 2014. Mae Lois hefyd wedi cael ei derbyn i'r Elite Football yn y John Madjeski Academy yn Reading ac yn gobeithio dechrau ar ôl canlyniadau TGAU (croesi bysedd!!) ym Mis Medi.

# Merched y Dartiau.

Mae tymor y 'Super League' ar fin cychwyn, a thim merched Penbont, Llanrug yw'r unig dim o'r fro sy'n cystadlu yn y gynghrair hon, sy'n cynnwys timau gorau gogledd-orllewin Cymru. Aelod o'r tim yw Bethan Roberts, sydd hefyd yn aelod o dim y sir, sy'n cystadlu yng Nghynghrair Siroedd Prydain. Mwy o hanes y tim yn rhifynnau'r gaeaf o'r 'Eco'.

# Ymdrech dda yn Aberystwyth

Yn y rhifyn diwethaf nodwyd fod tim 7 bob –ochr Aelwyd Bethel ar eu ffordd i Aberystwyth i gynhyrchioli Rhanbarth Eryri yng nghystadlaeth Genedlaethol Rhanbarthau yr Urdd. Cawsant eu hunain mewn grwp yn cynnwys ardaloedd Caerffili, Aber a Morgannwg. Tim pentref yn erbyn yr ardaloedd poblog felly, ond cafwyd perfformiadau da gan y garfan.

Yn y gêm gyntaf cafwyd gêm gyfartal yn erbyn Aber 1-1 gyda Ben Evans yn sgorio. Perfformiad arbennig yn yr ail gêm o guro pencampwyr Morgannwg o 2-1 diolch i goliau Celt Moss ac Iwan Evans. Yr oedd popeth yn dibynnu ar y gêm grwp olaf yn erbyn Caerffili. Buasai gêm gyfartal wedi eu harwain i rownd yr wyth olaf. Gyda'r pwysau ar y ddau dîm, cafwyd chwip o gêm, ond Caerffili aeth a hi o 1-0. Tipyn o siom ond roedd y ddau reolwr Gareth Jones a Darren Evans yn falch iawn o berfformiad y bechgyn. Tybed all yr hogiau ennill tlws diwedd tymor drwy amddiffyn Tlws Eco'r Wyddfa. Cawn weld.

# Pasbort yn barod

Mae llawer yn poeni ledled Prydain ar hyn o bryd oherwydd arafwch yn y Gorsafoedd Gwiro Pasborts. Mae un o Fethel yn gwneud yn siwr fod ei ddogfennau ef yn gywir a dilys. Ei obaith yw cael trip i Ewrop ddechrau Gorffennaf, a gobeithio dod ar y maes fel aelod o garfan Bêl-droed Dinas Bangor yng Nghwpan Ewropa. Mae Iolo Huws wedi cael tymor i'w gofio yn barod yn 2014. Wedi ennill cap dros Ysgolion Cymru y tymor cynt, bu'r cefnwr penfelyn yn aelod pwysig o garfan Colegau Cymru ennillodd y Tlws Prydeinig, a thîm Coleg Menai gipiodd gwpan colegau Cymru. Y ddau dîm yn cael ei reoliu/hyfforddi gan Marc Lloyd Williams.

Mae Neville Powell yn meddwl tipyn o Iolo ac wedi ei gyflwyno mewn sawl gêm ar lefel y gynghrair Genedlaethol. Tipyn o brofiad i'r llanc 19 oed fydd camu mlaen ar lefel Ewropiaidd. Efallai y gwnaiff yrru cerdyn post i Old Trafford!

# Cychwyn Ras Deiniolen






## Llwyddiant ar yr ymgais gyntaf

Daeth llwyddiant rhyfeddol i driawd lleol yn gynharach yn y mis yng nghystadleuaeth Llanc y Llechi (Sprint 2014). Addasiad o gamp y treiathalon yw'r gystadleuaeth, gydag un yn rhedeg, un yn nofio ac un yn beicio. Tipyn o her ac un sy'n mynnu ymroddiad i hyfforddi a magu hyder i saernio profiad yn y dair elfen. Mwy o glod i'r tri felly wrth ennill ar eu hymgais gyntaf. Y rhedwr oedd Gruffydd Rowlands, 16 oed o'r Waunfawr, y nofiwr Peter Williams 17 oed o'r Waunfawr a'r beiciwr Jordan Eade 16 oed o Lanberis. Mae'r tri yn ddisgyblion ym Ml. 11/12 yn Ysgol Brynrefail.

Llongyfarchiadau iddynt a braf cofnodi llwyddiant lleol mewn cystadleuaeth sy'n denu cystadleuwyr o ardal eang.

## Llwyddiant Anya yn parhau ar y trac



Parhaodd llwyddiant Anya Williams, 11 oed o Lanrug, ar y trac athletau yn Mhencampwriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a gynhaliwyd yng Nghei Connah eleni. Ychwanegodd y sbrintiwr ifanc deitlau Rhanbarth 100m a 200m i ferched dan 13, i'r teitl 60m Dan Do Gogledd Cymru a enillodd ym mis Chwefror.

Hyd yn hyn mae ei pherfformiad trawiadol y tymor hwn wedi ei gweld yn ennill 16 ras sbrint ar y trac yn Stretfford, Warrington, Leigh, Bae Colwyn a Chei Connah, yn ogystal â chael y wobr Perfformiad Benywaidd y Gêm (pob oedran a chlwb) yn rownd agoriadol ei clwb yn Gynghrair Trac a Maes Sir Gaer.

Er gwaethaf cystadlu yn erbyn merched flwyddyn yn hŷn na hi mae yr athletwraig clwb Trac a Maes Menai ar hyn o bryd wedi ei rhestru yn 1af, merched dan 13, sbrintiwr 75m gorau Cymru.

Bydd Anya yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Cymru (dan 13 a dan 15) yn Abertawe ar ddechrau mis Awst lle bydd yn ennill profiad gwerthfawr o gystadlu ar y lefel uchaf.

## Diwedd cyfnod

Trist i chwaraewyr fy oedran i oedd clywed am ddirwyn cynghrair y Caernarfon and District i ben. Dyma'r gynghrair y tyfodd nifer ohonnom i fyny ynddi – gan nad oedd cynghreiriau ieuenctid y dyddiau hynny. Efallai mai anheg yw cymharu cyfnodau ond yn sicr roedd y 60/70 au yn oes aur i'r gynghrair hon. Denwyd torfeydd, gyda 1000+ yn aml i'r Oval ar gyfer y rowndiau terfynnol y Penrhyn a'r Alves. Yn aml hefyd byddai'r timau yn cyrraedd a chipio rowndiau terfynnol cwpannau'r arfordir yr Amateur a'r Junior. Bum yn ffodus i ennil cwpannau y gynghrair gyda Llanberis a'r Coleg Normal, ac er chwarae iddynt a'r tim cryf arall Llechid Celts, ni ennillais i'r Bencampwriaeth. Ond roeddwn i yn Llanber y noson y curodd y Celts y Darans 1-0 (Roger Owen) i gipio'r Gynghrair a thim Llanberis y flwyddyn honno yn chwilio am y gamp lawn o dlysau Arfon a Gogledd Cymru. Os bu uchafbwynt i gynghrair mae'n siwr mai honno oedd y gêm. Pan chwaraeis fy gem gyntaf yn y gynghrair yn1965 i Bethesda Celts yn erbyn McBee Unt. ar gae tu ôl i Ysbyty Bryn Seiont, roedd llu o dimau yng Nghaernarfon yn unig. McBee Utd, Caernarfon Res., Brake Liners, Caernarfon Y.M.C.A. a Mountain Rangers yn Bontnewydd. Cofiaf y linnell drydan ar draws y cae am byth. " Play on, Play on." Cae stamp Talysarn. Cae mwd Cooks yn Penrhyn. Cae gwych y Traeth yn Port. Yr hen Eithin Duon a'i slôp fel ochr mynydd…

Trist cofnodi hefyd o golli'r gynghrair mae'n debyg bydd cystadleuaeth y Junior Cup yn diflannu. Dyna frwydrau fyddai rheini yn enwedig os oeddwn yn erbyn tim o 'lawr y coast' a'r dyfarnwr fel arfer o lawr fanno hefyd. Yn Saesneg uniaith wrth gwrs! Fel ardal gallwn ymfalchio yn hanes y Junior Cup bod enw Llanberis, Llanrug, Deiniolen a Bethel arni.

Efallai os mai hyn yw'r diwedd, yn ystod y gaeaf gallaf wneud colofn yn holi hen chwaraewyr y C.aD. am eu hoff atgofion. Rwyn siwr y buasai gan Cwil Bach, Alan Vincent, Arwel, Alwyn full back, Sel Allsop, Dafydd Arfon… lu o atgofion. Ond doedden nhw'n ddyddiau braf.

# Etape Eryri.



Flwyddyn yn ôl roedd sylw'n cael ei roi i lwyddiant syfrdanol y daith feicio o amgylch Eryri, a'r achlysur yn cael ei drefnu'n hynod effeithiol gan y cwmni lleol Camu i'r Copa (Always Aim High). Yr un oedd yr hanes eleni eto, gyda dros fil o feicwyr yn cymryd rhan. Ac fel y llynedd, yr un enw lleol ddaeth i'r amlwg unwaith eto. Flwyddyn yn ôl roeddem yn llongyfarch Gareth McGuiness o Lanrug ar ei gamp yn cwblhau'r Etape Mawr, sef dros gan milltir o feicio, a hynny mewn llai na phump awr. Eleni, torrodd ei record gan gwblhau'r cwrs mewn 4 awr a 53 munud. Anhygoel! Cysidrwch iddo feicio ar gyflymder o dros ugain milltir yr awr yr holl ffordd, gan gynnwys gelltydd Drws y Coed, Maentwrog-Gellilydan, Cwm Prysor a'r Migneint, cyn dringo'n ôl drwy Ddyffryn Mymbyr i Ben Gorffwysfa, a dringo wedyn o Lanrug dros elltydd y Ceunant i'r Waunfawr. Camp a hanner os bu un erioed! Ond nid dyna ddiwedd y stori. Roedd pob un o'r beicwyr yn cael eu hamseru wrth deithio o Dal y Mignedd i gopa Gallt Drws y Coed. Cwblhaodd Gareth y daith honno mewn 5 munud a chwech eiliad – ia, y cyflymaf o'r holl feicwyr ar y diwrnod!

Llwyddiant gwahanol ddaeth i ran Dylan Lewis o Ddeiniolen. Y llynedd, yn dilyn damwain erchyll ble bu bron a cholli ei fywyd, rhedodd Ras 10 cilomedr Deiniolen gyda chymorth baglau i godi arian i'r adrannau yn Ysbytai Gwynedd a Lerpwl a achubodd ei fywyd. Eleni, penderfynodd feicio yr Etape Bach, sef taith o bron i hanner can milltir; unwaith eto er mwyn codi arian – ac fe lwyddodd.

**Y Dwbl.**

Ar benwythnos hynod brysur ym myd athletau lleol, llwyddodd dau o'r fro i redeg Ras Pedol Pennant (18 milltir) ar y pnawn Sadwrn, a beicio'r Etape Canol (dros 70 milltir) ar y bore Sul. Llongyfarchion i Stel Farrar, Dinorwig a Dyfed Thomas, Llanrug.



## Taith i Awstria.

Dyma Owain James, Deiniolen a Phil Lynes, Llanrug. Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd y ddau wedi dychwelyd o Awstria ar ol bod yn cynrychioli Gwledydd Prydain mewn cystadleuaeth Triathlon. Mwy o'u hanes yn rhifyn Medi.